Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL SGORIO HYLENDID BWYD (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol

Mai 2012

# BIL SGORIO HYLENDID BWYD (CYMRU)

**Memorandwm Esboniadol i Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran dros Iechyd, wasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn Llywodraeth Cymru a chaiff ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru), a gyflwynir gennyf ar 28 Mai 2012, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Lesley Griffiths AC**

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

28 Mai 2012

# Cynnwys


| RHAN 1 | Rhif y Dudalen |
|---|---|
| 1. Disgrifiad | 3 |
| 2. Y Cefndir Deddfwriaethol | 4 |
| 3. Y diben a'r effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth eu cael | 5 |
| 4. Ymgynghoriad | 12 |
| 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | 14 |
| 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 19 |

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH**

| | |
|---|---|
| 7. Opsiynau | 21 |
| 8. Costau a manteision | 24 |
| 9. Asesiad o'r Gystadleuaeth | 38 |
| 10. Adolygu ar ôl gweithredu | 39 |

**ATODIAD 1 – NODIADAU ESBONIADOL I FIL SGORIO HYLENDID BWYD (CYMRU)**

# 1. Disgrifiad

1. Mae Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru. Mae'r Bil yn creu gofyniad statudol ar awdurdodau bwyd i weithredu cynllun sgorio hylendid bwyd (sy'n cynnwys sgorio busnesau bwyd a gorfodi'r cynllun) ac yn rhoi dyletswydd ar fusnesau bwyd i arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn eu sefydliadau. Bwriad y Bil yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth am safonau hylendid bwyd busnesau bwyd yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy cytbwys ynghylch ble i fwyta neu siopa am fwyd.

## 2. Y cefndir deddfwriaethol

2. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) o dan Adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3. Mae darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi'u nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.

4. Mae paragraff 8 o Ran 1 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol y gall y Cynulliad ddeddfu arnynt - o dan y pennawd "*Food*":

> *"Food and food products. Food safety (including packaging and other materials which come into contact with food). Protection of interests of consumers in relation to food."*

Mae hyn yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad wneud darpariaethau'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).

5. Nid yw unrhyw un o'r darpariaethau yn Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn dod o fewn unrhyw un o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 nac yn gymwys fel arall o ran Cymru, nac yn rhoi, gosod, addasu neu dynnu swyddogaethau sy'n arferadwy (neu'n rhoi'r pŵer i wneud hynny) ac eithrio mewn perthynas â Chymru; nac yn torri unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7 - gan roi sylw i unrhyw eithriad yn Rhan 3 o'r Atodlen honno o'r cyfyngiadau hynny.

## 3. Y diben a’r effaith y bwriedir i’r ddeddfwriaeth eu cael

**Problem/mater y mae’r Bil yn ceisio rhoi sylw iddo**

6. Mae hylendid nwyd yn hanfodol i ddiogelu iechyd pobl. Yn 2005, fe wnaeth yr achos mwyaf o E. coli O157 yng Nghymru arwain at farwolaeth un plentyn pum mlwydd oed a chanlyniadau iechyd hirdymor i nifer o blant eraill. Yn dilyn yr achos, comisiynodd Prif Weinidog Cymru ymchwiliad cyhoeddus a chyflwynodd yr Athro Pennington ei adroddiad ar 19 Mawrth 2009. Pan siaradodd yr Athro Pennington gerbron Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin2010, awgrymodd na fyddai cynllun sgorio hylendid bwyd yn ffordd ddrud o ysgogi gwellianau eithaf arwyddocaol o ran diogelwch bwyd.

7. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ym mis Medi 2011, yn cynnwys nifer o gamau i atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys: *cyflwyno’r Bil Cynllun Sgorio Bwyd i sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwell gwybodaeth am sgoriau hylendid busnesau bwyd*. Mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi manylion y cynnig am ddeddf newydd sy’n ymwneud â chyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru.

8. Sefydlwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn 2000 i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae gwenwyno bwyd yn cael ei achosi drwy fwyta bwyd neu yfed dŵr halogedig. Yr achosion mwyaf cyffredin o glefyd a gludir mewn bwyd yw hylendid gwael, trawsheintio, trafod bwyd yn amhriodol a thwymo bwyd yn annigonol. Yn ôl Adroddiad Prif Wyddonydd yr ASB ar gyfer 2010-11[1], bob blwyddyn mae tua miliwn o bobl yn dioddef o salwch a gludir mewn bwyd. O’r rhain mae 20,000 yn cael triniaeth ysbyty ac mae 500 o farwolaethau yn y DU.

9. Ym mis Hydref 2010, lansiwyd Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr ASB (‘Cynllun yr ASB’) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn wirfoddol. Datblygwyd Cynllun yr ASB mewn cydweithrediad â defnyddwyr, diwydiant a rhanddeiliaid gorfodi. Mae’r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru’n cymryd rhan yn wirfoddol yng Nghynllun yr ASB, ac allan o tua 30,000 o fusnesau bwyd yng Nghymru, mae dros 17,500 wedi cael eu sgorio hyd yn hyn[2].

10. Mae Cynllun yr ASB yn helpu defnyddwyr i ddewis ble i fwyta allan neu siopa am fwyd drwy roi iddynt yr wybodaeth am y safonau hylendid mewn sefydliadau busnes bwyd. Mae’n berthnasol i lefydd lle bydd pobl yn bwyta allan, gan gynnwys bwytai, siopau tecawê, arlwywyr symudol, caffis, gwestai a thafarndai. Mae hefyd yn berthnasol i ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal a ffreuturiau yn y gweithle, yn ogystal â llefydd lle bydd defnyddwyr yn siopa am fwyd (fel archfarchnadoedd, siopau bara a siopau delicatessen). Awdurdodau

[1] Ar gael yn http://www.food.gov.uk/science/researchpolicy/chiefsci/csreps/

[2] Asiantaeth Safonau Bwyd

lleol sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd mewn sefydliadau busnes bwyd yn eu hardal, ac mae hyn yn cynnwys cynnal arolygiadau wedi'u rhaglenni o sefydliadau busnes bwyd. Cynhelir yr arolygiadau hyn gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, a bydd sefydliadau sy'n fwy o risg i'r defnyddiwr yn cael eu harolygu'n amlach na'r rhai sy'n llai o risg. Ar ddyddiad yr arolygiad, bydd y swyddog diogelwch bwyd yn edrych i weld i ba raddau mae'r sefydliad yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth hylendid bwyd berthnasol ac yn cyfrif y 'sgôr hylendid bwyd' yn unol â meini prawf cynllun yr ASB. Mae'r sefydliad yn cael un o chwe sgôr hylendid bwyd: mae'r sgôr uchaf o '5' yn golygu bod gan y sefydliad safonau hylendid 'da iawn'; dylai unrhyw fusnes bwyd allu gyrraedd y sgôr uchaf. Ar waelod y raddfa mae '0' - sy'n golygu bod angen gwella ar frys. Mae'r sgôr a roddir yn dangos pa mor dda mae'r busnes yn ei wneud yn gyffredinol. Bydd yr awdurdod lleol yn hysbysu'r busnes bwyd o'i sgôr ac yn rhoi tystysgrif a sticer iddo. Caiff y busnes bwyd ei annog i arddangos y sticer mewn man amlwg lle gall defnyddwyr ei weld yn hawdd.

11. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod manteision pwysig i Gynllun yr ASB, ond mae hefyd yn sylweddoli bod i'r cynllun rai diffygion. Y prif gyfyngiadau o fewn Cynllun yr ASB yw:

- bod arddangos sgorau hylendid bwyd mewn sefydliadau busnes bwyd yn wirfoddol; a
- bod cyfranogiad awdurdodau lleol, y mae eu swyddogion yn llunio'r sgorau hylendid bwyd, hefyd yn wirfoddol.

12. Er bod y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru'n cymryd rhan yng Nghynllun yr ASB ar hyn o bryd, nid yw'r holl fusnesau bwyd sy'n cael sgôr hylendid bwyd yn arddangos y sgôr yn eu mangre ar hyn o bryd. Yn ôl gwerthusiad a gynhaliwyd yn 2011 ar ran yr ASB dim ond 31 y cant o fusnesau bwyd oedd yn arddangos eu sgôr hylendid bwyd[3] yn wirfoddol. Dangosodd yr ymchwil hon hefyd mai prin yw'r busnesau bwyd â sgôr isel sy'n arddangos eu sgôr, a dim ond 6 y cant o'r rheini â sgôr o 0, 1 neu 2 sy'n rhan o'r ymchwil sy'n dewis gwneud hynny. Roedd canrannau'r busnesau sy'n arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn wirfoddol yn ôl band fel a ganlyn:

[3] Arddangos sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru (Rhagfyr 2011) GfK NOP: http://www.food.gov.uk/wales/aboutus_wales/pressreleases/2011/dec/limiteddisplayfhrswales

**Tabl 1: Canran y mannau sy'n arddangos eu sgoriau hylendid bwyd**

| Sgôr Hylendid Bwyd | Canran y mannau sy'n arddangos eu tystysgrif/sticer |
|---|---|
| 5 | 66% |
| 4 | 40% |
| 3 | 21% |
| 0, 1 and 2 | 6% |

13. Gan nad yw rhai busnesau bwyd yn arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn eu sefydliadau, yr unig ffordd ddibynadwy i ddefnyddwyr ddod i wybod am y safonau hylendid bwyd mewn busnesau bwyd yw ymweld â gwefan genedlaethol (Y DU) yr ASB lle mae'r holl sgorau hylendid bwyd a roddir i awdurdodau lleol wedi'u harddangos. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod dwy broblem yn codi yma:

- Yng Nghymru ni ddefnyddir y rhyngrwyd gan 31 y cant o'r boblogaeth; ymysg pobl dros 65 oed, mae'r ffigur hwn yn 73 y cant[4]. Felly, nid yw dod o hyd i sgôr hylendid bwyd dros wefan yr ASB yn opsiwn i'r bobl hynny.

- Bydd llawer o bobl yn penderfynu ar amrant ble fyddant yn bwyta, heb gynllunio ymlaen llaw. Yn yr achosion hyn, efallai nad yw mynediad i'r rhyngrwyd yn bosibl nac yn ymarferol. Felly, os nad yw'r sgôr hylendid bwyd wedi'i arddangos yn y fangre, nid oes gan y defnyddwyr unrhyw ffordd o gael yr wybodaeth hon cyn dewis ble i fwyta neu brynu bwyd

14. Y ffordd fwyaf effeithiol a syml o sicrhau bod gan bawb yr un mynediad i'r wybodaeth hon yw arddangos y sgoriau hylendid bwyd mewn sefydliadau busnes bwyd man amlwg lle gall defnyddwyr eu gweld.

15. Mae Llais Defnyddwyr Cymru'n cefnogi'n gryf y dylid arddangos sgoriau'n orfodol. Mae hyn yn cydnabod gallu pŵer y defnyddiwr i wella safonau hylendid bwyd drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus am berfformiad hylendid busnesau unigol. Mae arddangos sgoriau hylendid bwyd hefyd yn boblogaidd gyda'r cyhoedd. Mewn ymateb i arolwg yn 2008 a gynhaliwyd gan yr ASB[5], roedd 95 y cant o'r cyhoedd am weld sgoriau hylendid bwyd yn cael eu harddangos yn orfodol. Yn ôl arolwg a gynhaliwyd dros y ffôn gan Lais Defnyddwyr Cymru ym mis Hydref 2011, roedd 94 y cant o bobl Cymru o'r farn y dylai fod yn orfodol i fusnesau bwyd yng Nghymru arddangos eu sgôr hylendid bwyd[6].

---

[4] Richard, S (2009) Logged in or locked out? Llais Defnyddwyr Cymru
[5] Asiantaeth Safonau Bwys (2008) Evaluation of Scores On The Doors. Prif Adroddiad Terfynol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. *www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/sotdmainreport.pdf*
[6] Llais Defnyddwyr (Tachwedd 2011) http://www.consumerfocus.org.uk/wales/news/welsh-consumers-want-easy-access-to-food-hygiene-reports

16. Mae'r Bil am ei gwneud yn orfodol i'r busnesau bwyd hynny yng Nghymru sydd o fewn sgôp y cynllun sgorio hylendid bwyd statudol newydd arddangos gwybodaeth am sgoriau hylendid bwyd yn eu sefydliad. Os gofynnir iddo, dylai'r gweithredwr hefyd roi gwybod ar lafar i'r cwsmer beth yw'r sgôr hylendid bwyd. Nid yn unig bydd hyn yn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau cytbwys ynghylch ble i fwyta allan neu siopa am fwyd, disgwylir y bydd y gofyniad i arddangos sgoriau hylendid bwyd yn codi safonau ac yn ysgogiad i fusnesau bwyd wella eu safonau hylendid bwyd wrth i'r galw am sgoriau hylendid da gynyddu.

**Ar bwy mae'r Bil yn effeithio?**

17. Bydd busnesau bwyd sy'n cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr yn cael eu cynnwys yn y cynllun sgorio hylendid bwyd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, bwytai, siopau tecawê, arlwywyr symudol, caffis, gwestai, tafarndai, ysgolion, ysbytai, cartrefi gofal preswyl, archfarchnadoedd, siopau bara a siopau delicatessen. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi (drwy reoliadau) bod rhai categorïau o sefydliadau yn cael eu heithrio o'r system sgorio; bydd ymgynghori'n digwydd ar unrhyw reoliadau o'r fath yn amodol ar y Bil yn cwblhau Cam 1 o ystyriaeth y Cynulliad.

18. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n ymwneud â'r fasnach fwyd busnes i fusnes i gael eu cynnwys yn sgôp y cynllun newydd. Gall y busnesau hyn gynhyrchu, prosesu neu baratoi bwyd ond nid ydynt yn gwerthu bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr. Enghreifftiau o'r sefydliadau hyn yw gweithgynhyrchwyr, mân-werthwyr a chludwyr. Nid yw sefydliadau sy'n ymwneud â'r fasnach fwyd busnes i fusnes yn cael eu sgorio o dan Gynllun yr ASB ar hyn o bryd.

19. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i "awdurdodau bwyd" yng Nghymru arolygu sefydliadau bwyd yn eu hardaloedd a chynhyrchu sgoriau hylendid bwyd ar eu cyfer. "Awdurdod bwyd" yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol â swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd yn awdurdodau bwyd. Felly bydd y gofynion yn y Bil yn effeithio arnyn nhw. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o awdurdod bwyd (er enghraifft i gynnwys cyrff eraill)

20. Bydd defnyddwyr yn elwa o'r Bil gan y byddant yn cael gwybodaeth hygyrch, hawdd ei deall am safonau hylendid busnes bwyd fel y gallant wneud dewisiadau mwy cytbwys ynghylch ble i fwyta neu siopa am fwyd.

**Amcanion**

21. Prif amcan polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn yw sefydlu cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru. Bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y cynllun gorfodol newydd yn gweithio. Am y rheswm hwn, bydd y cynllun newydd yn seiliedig yn fras ar Gynllun yr ASB a gafodd ei fabwysiadu ledled Cymru. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd arolygu a chynhyrchu sgoriau hylendid bwyd i sefydliadau busnes bwyd

yn eu hardaloedd, gan ddefnyddio meini prawf a gyhoeddir gan yr ASB. Bydd gofyn i sefydliadau busnes bwyd sydd wedi cael eu sgorio arddangos eu sgôr hylendid bwyd mewn man penodol yn eu sefydliad a bydd gofyn i'r ASB gyhoeddi'r sgôr ar ei gwefan. Bydd gofyn i awdurdodau bwyd orfodi'r ddeddf newydd a fydd yn ei gwneud yn dramgwydd peidio ag arddangos sgôr hylendid bwyd yn y lleoliad a'r dull a ragnodir. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn dramgwydd i fusnes bwyd beidio â datgelu ei sgôr hylendid ar lafar pan ofynnir iddynt wneud hynny. Byddai hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i bobl ddall a rhannol ddall na fyddai'n gallu gweld y sgôr sydd wedi'i arddangos. Bydd awdurdodau bwyd yng Nghymru'n cael y gallu i orfodi'r cynllun gorfodol newydd drwy ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig ac erlyniad (lle bo'n briodol).

22. Bwriad Llywodraeth Cymru hefyd yw bod y cynllun newydd yn deg i fusnesau bwyd. Er y bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn eu sefydliad er lles y defnyddwyr, pan fydd yr awdurdod bwyd yn rhoi gwybod i'r busnes bwyd beth yw ei sgôr, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bwyd esbonio pam bod y sefydliad wedi cael y sgôr hwnnw.

23. Bydd y cynllun sgorio hylendid bwyd hefyd yn rhoi i'r busnesau bwyd:

- Yr hawl i apelio yn erbyn eu sgôr hylendid bwyd. Bydd hyn yn rhoi 21 diwrnod i fusnesau bwyd gwestiynu'r sgôr hylendid bwyd a roddwyd iddyn nhw os ydynt o'r farn nad yw'r sgôr yn adlewyrchu'n gywir y safonau hylendid a ganfuwyd ar adeg yr arolygiad a/neu na chafodd y meini prawf sgorio eu cymhwyso'n gywir gan yr awdurdod bwyd wrth gynhyrchu'r sgôr hylendid bwyd. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bwyd ystyried yr apêl. Fel rhan o'r broses honno, efallai bydd yr awdurdod bwyd yn cynnal arolygiad arall.

- Y gallu i roi sylwadau am eu sgôr hylendid bwyd. Mae'r "hawl i ateb" yn rhoi cyfle i weithredydd y busnes bwyd esbonio i gwsmeriaid posibl unrhyw gamau a gymerwyd i wella safonau hylendid ers yr arolygiad hylendid bwyd. Gallent hefyd roi manylion unrhyw amgylchiadau anarferol adeg yr arolygiad a allai fod wedi effeithio ar y sgôr hylendid bwyd a roddwyd. Rhaid i'r awdurdod bwyd anfon unrhyw sylwadau at yr ASB, a gall yr ASB gyhoeddi'r sylwadau hynny ar ei gwefan ochr yn ochr â sgôr hylendid bwyd y sefydliad busnes bwyd.

- Y gallu i ofyn i'r awdurdod bwyd gynnal asesiad ail-sgorio ar gyfer y sefydliad. Gall y gweithredwr ofyn am ail-sgorio os yw'r sefydliad, er enghraifft, wedi gwneud gwaith y mae'n credu y gall effeithio ar ei sgôr hylendid bwyd. Bydd hyn yn ysgogiad i'r gweithredwr busnes bwyd wella'r hylendid yn ei sefydliad ac, os yw'n briodol, i gael sgôr newydd, heb orfod aros tan yr arolygiad nesaf. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bwyd gydymffurfio â chais y gweithredwr a chynnal yr arolygiad ail-sgorio o fewn tri mis i wneud y cais gan y gweithredwr - ar yr amod bod yr awdurdod bwyd yn fodlon bod rhai amodau wedi'u bodloni. Yn ôl y Bil mae'n ofynnol i awdurdodau bwyd godi tâl rhesymol

ar weithredydd busnes bwyd am unrhyw arolygiadau ail-sgorio sy'n cael eu cynnal ar gais y gweithredwr. Gan fod yr arolygiadau hyn yn unig at ddibenion ail-werthuso'r sgôr hylendid bwyd cyfredol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai awdurdodau bwyd orfod codi tâl ar y gweithredwr fel y gallant adennill y gost o gynnal yr arolygiad. Bydd yn ofynnol i awdurdodau bwyd gyhoeddi ymlaen llawn y tâl a godir fel bod y busnes bwyd yn weddol hysbys o'r tâl sy'n debygol a sut y penderfynwyd ar y tâl.

**Cynllun gweithredu a chyflawni manwl**

24. Mae prif elfennau'r ddeddfwriaeth ar wyneb y Bil; fodd bynnag mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud nifer o reoliadau. Ceir crynodeb o'r pwerau hyn i wneud rheoliadau yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn. Bwriad y Llywodraeth yw ymgynghori ar fanylion y rheoliadau arfaethedig, yn amodol ar y Bil yn cwblhau Cam 1 o ystyriaeth y Cynulliad.

25. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil ac i'r ASB wneud argymhellion i awdurdodau bwyd i'w helpu nhw i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau o dan y cynllun gorfodol newydd. Yn ôl y Bil mae'n ofynnol i awdurdodau bwyd ystyried yr argymhellion a wneir gan yr ASB a'r canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cydweithio â'r ASB ac awdurdodau bwyd i ddatblygu canllawiau a fydd yn eu cynorthwyo i weithredu'r cynllun sgorio hylendid bwyd yn llwyddiannus ac i ymarfer eu swyddogaethau o dan y Bil ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil. Hefyd, darperir hyfforddiant, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol. Bydd yr argymhellion a wneir gan yr ASB yn cynnwys cyngor ar fabwysiadu dull cyson o weithredu'r cynllun ledled Cymru. Mae'r amserlenni ar gyfer rhoi'r Bil hwn ar waith, a'r rheoliadau, canllawiau a'r hyfforddiant dilynol, yn cael eu nodi isod (paragraff 29).

**Risg/peryglon o beidio â gwneud y ddeddfwriaeth**

26. Os na chaiff y Bil ei gymeradwyo, bydd Cynllun yr ASB yn parhau i fod yn ei le yng Nghymru ond bydd hynny'n wirfoddol. Ni fydd awdurdodau lleol yn ymrwymedig i gymryd rhan yng Nghynllun yr ASB ac ni fydd busnesau bwyd yn ymrwymedig i arddangos eu sgôr hylendid bwyd. Felly bydd y sefyllfa bresennol yn parhau, sef bod rhai busnesau bwyd yn arddangos eu sgôr hylendid bwyd ac eraill ddim. Bydd hyn yn anfanteisiol i'r defnyddwyr o ran cael mynediad i wybodaeth am safonau hylendid bwyd busnes bwyd a'u gallu i wneud dewisiadau cytbwys am ble i fwyta neu siopa am fwyd. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol felly i gyflwyno'r cynllun sgorio hylendid bwyd statudol fel y gellir gwneud cyfranogiad awdurdodau lleol ac arddangos sgoriau hylendid bwyd mewn sefydliadau bwyd yn orfodol.

## Sut bydd y ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon

27. Mae'r Bil am ei gwneud yn ofynnol i'r holl fusnesau bwyd sydd wedi'u cofrestru neu'u cymeradwyo gan awdurdod bwyd yng Nghymru arddangos eu sgôr hylendid bwyd. Bydd hyn yn cynnig cysondeb i fusnesau bwyd yng Nghymru. Nid yn unig bydd hyn yn helpu defnyddwyr, ond mae'n debygol y bydd pŵer y defnyddiwr yn codi safonau hylendid bwyd busnesau bwyd unigol. Gan fod busnesau sydd â sgoriau hylendid bwyd uwch yn debygol o weld cynnydd cyfatebol mewn busnes, bydd hyn yn ysgogi busnesau bwyd i ymdrechu i sicrhau sgoriau hylendid bwyd uwch. Mae cyfle hefyd i fusnesau unigol hybu eu sgoriau ac i sectorau penodol yng Nghymru fel y diwydiant twristiaeth hyrwyddo'r cynllun gorfodol newydd.

## Y cwmpas tiriogaethol

28. Mae'r Bill yn berthnasol i Gymru.

## Amserlen

29. Nid oes gofynion penodol i'r Bil gael ei basio o fewn amserlen bendant. Ar yr amod fod y Bil hwn yn cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr amserlenni arfaethedig ar gyfer rhoi'r ddeddfwriaeth newydd hon ar waith yw:

- Rhagwelir Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2013.
- Mae'r Llywodraeth yn rhagweld y bydd y cynllun statudol newydd yn ei le ym mis Tachwedd 2013.
- Caiff canllawiau eu datblygu a'u cyhoeddi i gyd-fynd â'r cynllun yn dod i rym.

# 4. Ymgynghoriad

## Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

30. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Bil drafft, sef Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) rhwng 14 Rhagfyr 2011 a 7 Mawrth 2012. Nod yr ymgynghoriad oedd casglu barn am gynnwys arfaethedig y Bil. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori a'r Bil drafft i randdeiliaid a oedd yn cynnwys sefydliadau a oedd yn cynrychioli busnesau bwyd, sefydliadau llywodraeth leol a sefydliadau iechyd. Mae'r rhestr ddosbarthu lawn ar gyfer yr ymgynghoriad ar gael ar dudalen 25 o'r ddogfen ymgynghori sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[7] Daeth 63 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law. Cynhaliodd Llais Defnyddwyr Cymru ymarfer ymgysylltu â defnyddwyr ynghylch cynigion y Bil gan annog defnyddwyr i anfon cardiau post/e-byst i Lywodraeth Cymru am gynnwys y Bil. Daeth 176 o ymatebion i law Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r ymarfer hwnnw.

31. Cyn lansio'r ymgynghoriad, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Chynghrair Twristiaeth Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Gweithgor Cyngor Adnewyddu'r Economi i ddarparu gwybodaeth ar y cynigion ac i wrando ar eu safbwyntiau. Anfonwyd llythyr cyn ymgynghori hefyd yn union cyn lansio'r ymgynghoriad mewn ymgais i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad. Cafodd erthygl ar y bwriad i gyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru ei gynnwys mewn e-gylchlythyr gan yr ASB a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011. Cafodd lansiad yr ymgynghoriad sylw yn y cyfryngau yng Nghymru a darlledwyd rhaglen *Wales this Week* am y cynllun gorfodol arfaethedig ar 31 Ionawr 2012 gyda mewnbwn gan yr ASB a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhaliodd yr ASB ymgyrch hysbysebu yn hyrwyddo'r Cynllun ASB gwirfoddol presennol ym mis Chwefror 2012 a oedd hefyd yn gyfle i atgoffa defnyddwyr a busnesau yng Nghymru i gyfranogi a chyfrannu at yr ymgynghoriad. Yn ystod yr ymgynghoriad, cysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru â swyddogion diogelwch bwyd o awdurdodau lleol er mwyn cael eu safbwyntiau ar ymarferoldeb y cynigion yn y Bil.

## Crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad

32. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol iawn i'r cynnig ei bod yn ofynnol i fusnes bwyd arddangos ei sgôr hylendid bwyd yn ei fangre. Dwy thema a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd cysondeb a thryloywder:

- Cysondeb o ran y modd y caiff y cynllun sgorio hylendid bwyd newydd ei roi ar waith yng Nghymru a chysondeb rhwng y cynllun newydd a chynllun gwirfoddol presennol yr ASB; a

- dylai'r Bil helpu i wella tryloywder perfformiad y busnes ac atebolrwydd gweithgarwch rheoleiddiol lleol.

---

[7] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/food/?skip=1&lang=cy

Mae dadansoddiad manwl o'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[8]

**Newidiadau a wnaed i'r Bil ar ôl yr ymgynghoriad**

33. Yn dilyn yr ymgynghoriad gwnaed rhai diwygiadau pwysig i'r Bil. Dyma nhw:

(a) mae busnesau sy'n cyflenwi bwyd i fusnesau eraill bellach wedi'u cynnwys o fewn sgôp y cynllun;

(b) bydd y Bil yn berthnasol yn unig i fusnesau bwyd sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Ni fydd sefydliadau busnes bwyd a gofrestrwyd y tu allan i Gymru ond sy'n masnachu dros dro yng Nghymru (h.y. masnachwyr symudol) o fewn sgôp y cynllun newydd;

(c) mae'n ofynnol i awdurdodau bwyd bellach baratoi rhaglen o arolygiadau o sefydliadau busnes bwyd yn eu hardal gan ystyried materion a bennir gan yr ASB - bydd y rhaglen yn penderfynu a oes angen arolygiad a pha mor aml y dylid cynnal yr arolygiadau hynny;

(d) cafwyd gwared ar y gofyniad i gadw'r dystysgrif hylendid bwyd, a'r tramgwydd cysylltiedig o beidio â'i chyflwyno i swyddog awdurdodedig ar gais;

(e) 21 diwrnod fydd y terfyn amser i fusnesau bwyd gyflwyno apêl bellach, a bydd awdurdodau bwyd hefyd yn cael 21 diwrnod i ystyried a phennu'r apêl - mae'r darpariaethau sy'n gysylltiedig ag apêl hefyd yn egluro nad oes gan weithredydd busnes bwyd yr hawl i apelio ymhellach yn dilyn penderfyniad awdurdod bwyd ar eu hapêl wreiddiol;

(f) mae'r darpariaethau mewn perthynas â'r hawl i ateb wedi'u gwneud yn fwy eglur a chafwyd gwared ar y terfynau amser o ran yr hawl i ateb; eglurwyd yn y Bil y gall yr hawl hon gael ei harfer fwy nag unwaith mewn perthynas ag unrhyw sgôr tra bydd y sgôr yn parhau'n ddilys;

(g) gwnaed y darpariaethau sy'n gysylltiedig ag arolygiadau ail-sgorio yn fwy eglur;

(h) mae'n ofynnol i awdurdodau bwyd roi gwybod i weithredydd sefydliad busnes bwyd am gostau arolygiadau ail-sgorio a'r modd y cafodd y costau eu cyfrifo cyn cynnal yr ail-sgorio;

(i) mae dyletswydd newydd ar fusnesau bwyd i ddatgelu sgôr hylendid bwyd eu sefydliad ar lafar os bydd rhywun yn gofyn iddynt, ac os gwrthodant wneud hynny mae'n dramgwydd cysylltiedig - bydd hyn yn galluogi pobl â nam ar eu golwg neu bobl sy'n gwneud ymholiadau dros y ffôn i gael gwybod beth yw'r sgôr hylendid cyn defnyddio'r sefydliad.

[8] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/food/?skip=1&lang=cy

## 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

34. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 2 isod yn nodi'r canlynol mewn perthynas â phob darpariaeth:
- y person neu'r sefydliad y rhoddir y pŵer iddo;
- y ffurf ar gyfer arfer y pŵer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn gymhwysol (gadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn) os o gwbwl.

**Tabl 2: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth**

| Cymal | Y sawl sy'n cael y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymal 2(6)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd. | Penderfyniad cadarnhaol | Bydd y rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd er mwyn lleihau neu ehangu'r categoriau o sefydiadau busnes bwyd y mae'n ofynnol iddynt gael sgôr hylendid bwyd. Felly mae penderfyniad cadarnhaol yn briodol. |
| Cymal 2(6)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniad o awdurdod bwyd (er enghraifft, i gynnwys cyrff eraill). | Penderfyniad cadarnhaol | Bydd y rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o awdurdod bwyd. Felly mae penderfyniad cadarnhaol yn addas. |
| Cymal 3(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud darpariaeth i bontio rhwng cynllun sgorio hylendid bwyd gwirfoddol yr ASB a'r cynllun gorfodol newydd a sefydlwyd gan y Bil. | Penderfyniad cadarnhaol | Bydd y rheoliadau hyn yn dod â sefydliadau a gafodd eu sgorio o dan gynllun gwirfoddol yr ASB o fewn sgôp y cynllun gorfodol newydd drwy ganiatáu sgoriau hylendid bwyd newydd (statudol) ar gyfer y |

| Cymal | Y sawl sy’n cael y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sefydliadau hynny yn seiliedig ar asesiadau o safonau hylendid bwyd sefydliad a gynhaliwyd cyn cychwyn y Bil. Mae hyn yn fwy na mater o fanylion. |
| Cymal 3(3)(c) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ffurf y sticer sgorio hylendid bwyd y mae’n rhaid i’r awdurdod bwyd ei roi a’i arddangos gan y gweithredwr. | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i’w gilydd. |
| Cymal 3(3)(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi pa wybodaeth (ar wahân i’r wybodaeth sy’n ofynnol gan gymal 3(3)(a), (b) a (c)) y mae’n rhaid i awdurdod bwyd ei hanfon i weithredydd y sefydliad. | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i’w gilydd. |
| Cymal 3(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi y gall rhai categorïau o sefydliadau gael eu heithrio o’r sgorio. | Penderfyniad cadarnhaol | Bydd y rheoliadau hyn yn cymryd rhai categorïau o sefydliadau y tu allan i sgôp y cynllun gorfodol newydd. Felly mae’r weithdrefn gadarnhaol yn briodol. |
| Cymal 5(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi’r ffurf sy’n rhaid i weithredydd ei defnyddio wrth apelio | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i’w gilydd. |

| Cymal | Y sawl sy'n cael y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn erbyn sgôr hylendid bwyd. | | |
| Cymal 5(7)(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi pa wybodaeth (ar wahân i'r wybodaeth sy'n ofynnol gan gymal 5(7)(a), (b) a (c)) y mae'n rhaid i awdurdod bwyd ei hanfon at weithredydd y sefydliad yn dilyn newid i'r sgôr hylendid bwyd yn sgil apêl. | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i'w gilydd. |
| Cymal 6(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi pa wybodaeth bellach y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd ei darparu i'r ASB (yn ychwanegol at yr wybodaeth yng nghymal 6(1)). | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i'w gilydd. |
| Cymal 7(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r lleoliad a'r dull o arddangos y sticer sgorio hylendid bwyd. | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i'w gilydd. |
| Cymal 11(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r ffurf y mae'n rhaid i weithredydd ei defnyddio wrth | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i'w gilydd. |

| Cymal | Y sawl sy'n cael y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | wneud cais am arolygiad ail-sgorio. | | |
| Cymal 11(9)(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi pa wybodaeth (ar wahân i'r wybodaeth sy'n ofynnol gan gymal 11(9) (a), (b) a (c)) y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd ei hanfon at weithredydd y sefydliad yn dilyn newid i sgôr hylendid bwyd yn sgil arolygiad ail-sgorio. | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i'w gilydd. |
| Cymal 14(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdod bwyd ei hanfon at weithredwyr sefydliadau busnes bwyd newydd yn ei ardal o fewn 14 diwrnod i gofrestru'r sefydliad. | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i'w gilydd. |
| Cymal 25 | Gweinidogion Cymru | Gorchym-yn | Mae'r ddarpariaeth hon yn ofynnol gan nad yw'r Bil yn dod i rym yn llawn ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol ond caiff ei weithredu gan Weinidogion Cymru. | Dim gweithdrefn. | Mae hyn yn arferol i orchmynion cychwyn gan eu bod yn syml yn dod â darpariaethau i rym. |
| Atodlen 1, Rhan 1 paragraff 3 | Gweinidogion Cymru | Rheoliad-au | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi terfynau gwahanol ar gyfer y gosb benodedig a'r gosb ostyngol i'r rhai | Penderfyniad negyddol | Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi manylion a all newid o bryd i'w gilydd. |

| Cymal | Y sawl sy'n cael y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a roddir yn Atodlen 1, Rhan 1, paragraffau 1 a 2. | | |

35. Bwriad Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ymgynghoriadau ffurfiol ar yr is-ddeddfwriaeth (ar wahân i'r gorchmynion cychwyn) i'w gwneud o dan y Bil.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

36. Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ar gyfer y Bil, ac mae'n dilyn fel Rhan 2.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 7. Opsiynau

37. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno pedwar opsiwn gwahanol mewn perthynas ag amcanion polisi'r Bil. Mae pob opsiwn yn cael ei ddadansoddi er mwyn gweld i ba raddau y byddent yn cyflawni amcanion y Llywodraeth, ynghyd â'r peryglon, costau a manteision sy'n gysylltiedig â phob un.

38. Cafodd y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn eu hasesu dros gyfnod o bum mlynedd, 2012-13 i 2016-17. Cyflwynir y costau a'r manteision mewn termau Gwerth Presennol, gan ddefnyddio cyfradd disgownt o 3.5 y cant. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Cafodd yr holl ffigurau eu talgrynnu i'r can punt agosaf ac efallai na fydd y swm terfynol yn swm o'r cyfansymiau unigol.

39. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid modelu'r cynllun gorfodol ar y cynllun gwirfoddol.

40. Mae'r cynllun gwirfoddol sy'n gweithredu ledled Cymru ar hyn o bryd wedi'i hen sefydlu ac yn cyflawni ei brif amcanion. Gan fod y cynllun presennol yn gweithio'n dda, ac oherwydd y gost uchel o ddatblygu a gweithredu cynllun newydd, penderfynodd Llywodraeth Cymru'n gynnar iawn y byddai prif elfennau'r cynllun gwirfoddol yn cael eu hailadrodd yn y cynllun gorfodol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

41. Mae'r opsiynau isod felly'n ymwneud â mabwysiadu ac addasu'r cynllun gwirfoddol a weithredir gan yr ASB.

42. Yr opsiynau yw –
    (a) Opsiwn 1 – gwneud dim
    (b) Opsiwn 2 – mwy o hyrwyddo'r cynllun gwirfoddol presennol
    (c) Opsiwn 3 – cyflwyno'r cynllun gorfodol
    (d) Opsiwn 4 - cyflwyno'r cynllun gorfodol gan adennill costau ar gyfer arolygiadau ail-sgorio hylendid bwyd.

**Opsiwn 1 - gwneud dim**

43. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r cynllun gwirfoddol yn parhau i weithredu ar sail wirfoddol yn unig, a byddai'r holl fusnesau bwyd o fewn sgôp y cynllun yn parhau i gael sgôr hylendid. Byddai gwefan yr ASB yn parhau i arddangos y sgoriau hylendid, a byddai'n parhau i fod yn opsiynol i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr.

44. Prif anfanteision yr opsiwn hwn yw –

(a) Ar hyn o bryd gall awdurdodau lleol roi'r gorau i fod yn rhan o'r cynllun gwirfoddol ar unrhyw adeg. Byddai tynnu allan o'r cynllun yn arwain at ddull tameidiog o sgorio hylendid bwyd mewn busnesau bwyd sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae angen i awdurdodau lleol a busnesau bwyd yng Nghymru gymryd rhan lawn yn y cynllun iddo fod yn hollol effeithiol.

(b) Nid yw'n ofynnol i fusnesau bwyd arddangos eu sgoriau hylendid yn eu sefydliadau. Bydd rhai busnesau bwyd yn dewis gwneud hynny, ond nid pob busnes. Mae hyn yn golygu bod y dull o arddangos yn anghyson ac yn dameidiog, ac nid yw'n fanteisiol i ddefnyddwyr pan nad oes sgôr hylendid yno i'w helpu i wneud dewis cytbwys ynghylch ble i fwyta. Mae gweithredwyr busnes bwyd â sgôr isel yn debygol o barhau i osgoi arddangos eu sgôr.

45. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw gyfle i ddatblygu a gwella'r cynllun gwirfoddol. Gallai arwain at dranc y cynllun yn y dyfodol pe bai'r awdurdodau lleol yn tynnu allan ohono. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig i ddefnyddwyr gael gweld yr wybodaeth am y sgôr hylendid bwyd ar fformat sy'n hawdd ei ddeall ac nad yw gwneud dim yn opsiwn hyfyw.

**Opsiwn 2 - mwy o hyrwyddo'r cynllun gwirfoddol presennol**

46. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig cryfhau'r cynllun gwirfoddol presennol drwy gynyddu ymwybyddiaeth y defnyddiwr ohono.

47. Drwy gynyddu ymwybyddiaeth y defnyddiwr, disgwylir y bydd mwy o ddefnyddwyr yn edrych am sgôr hylendid bwyd busnes bwyd ar wefan yr ASB. Gall defnyddwyr hefyd herio busnesau sy'n methu ag arddangos eu sgôr yn wirfoddol yn eu sefydliadau. Gallai grym y farchnad, yn sgil mwy o sylw ar y defnyddiwr, annog gweithredwyr busnes bwyd i arddangos eu sgôr ond mae hyn yn annhebygol o fod yn gyson effeithiol.

48. Gellir rhagweld y byddai ymgyrch gyhoeddusrwydd yn cynnig mwy o wybodaeth am y cynllun gwirfoddol, ond mae'n annhebygol y byddai ymgyrch o'r fath yn gallu darparu gwelliant sylweddol yn y safonau hylendid bwyd a mynediad i sgoriau hylendid bwyd i ddefnyddwyr mewn sefydliadau unigol.

**Opsiwn 3 – cyflwyno'r cynllun gorfodol**

49. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig deddfwriaeth i greu a gweithredu'r cynllun gorfodol ar gyfer yr holl fusnesau bwyd yng Nghymru sy'n darparu bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr a mwyafrif y fasnach busnes i fusnes.

50. Bwriad y Bil yw rhoi ymrwymiadau newydd ar awdurdodau bwyd a’r ASB i weithredu’r cynllun gorfodol, a bod y busnes bwyd yn cymryd rhan yn y cynllun ac yn arddangos y sgôr a ddyfarnwyd i’r sefydliad.

51. Bydd y gofyniad statudol i greu a gweithredu’r cynllun gorfodol yng Nghymru yn annog busnesau i godi eu safonau hylendid bwyd er mwyn cael sgôr uwch i gadw cwsmeriaid presennol a denu rhai newydd. Er bod pob un o’r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cymryd rhan yn y cynllun gwirfoddol ar hyn o bryd, bydd yr opsiwn hwn yn ei gwneud yn orfodol iddynt gymryd rhan yn y dyfodol.

52. Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr yng Nghymru fynediad uniongyrchol i sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru a fydd yn eu helpu i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch ble i brynu neu siopa am fwyd. Dylai’r gwelliant a ddisgwylir i safonau hylendid leihau’r risg o wenwyno bwyd. Bydd y cynllun gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus fel ysgolion ac ysbytai arddangos eu sgoriau a chynnwys mwyafrif y fasnach busnes i fusnes o fewn sgôp y cynllun. Byddai cyflwyno’r cynllun gorfodol yn cael cefnogaeth nifer o fesurau gorfodi eraill gan gynnwys hysbysiadau cosb benodedig.

**Opsiwn 4 - cyflwyno’r cynllun gorfodol gan adennill costau ar gyfer arolygiadau ail-sgorio**

53. Mae’r opsiwn hwn yn debyg i Opsiwn 3 ond mae’n cynnwys elfen ychwanegol, sef codi tâl gorfodol ar fusnesau bwyd pan fyddant yn gwneud cais am arolygiad ail-sgorio. Disgwylir y bydd ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr yn arwain at fwy o geisiadau gan fusnesau bwyd am gael arolygiadau ail-sgorio yn unswydd er mwyn sicrhau sgôr uwch. Gallai hyn yn ei dro arwain at fwy o bwysau ar awdurdodau lleol (sy’n gweinyddu ac yn gweithredu’r cynllun) i gynnal ailarolygiadau, a hynny’n golygu symud adnoddau oddi wrth gyflawni dyletswyddau statudol eraill.

54. Ni fyddai’r cynnig hwn i godi tâl am arolygiadau ail-sgorio at ddiben sgorio hylendid bwyd o dan y cynllun gorfodol yn golygu y byddai’n ymestyn i godi tâl am arolygiadau gorfodi o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 presennol.

55. Ar hyn o bryd nid yw awdurdodau lleol yn codi tâl am ail-ymweliadau y gwnaed cais amdanynt mewn cysylltiad â’r cynllun gwirfoddol. Dim ond os oes sail gyfreithiol dros wneud hynny y gallant godi tâl o’r fath. Mae’r opsiwn hwn yn cynnig y dylid rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i adennill y gost o gynnal arolygiadau ail-sgorio pan fydd y cais am yr arolygiad hwnnw’n dod oddi wrth y gweithredwr busnes bwyd sy’n ceisio sgôr uwch. Gallai’r opsiwn hwn arwain at bwysau ar adnoddau awdurdodau lleol cyn y byddai unrhyw ofyniad gorfodol i godi tâl yn dod i rym, wrth i fusnesau bwyd wneud cais am arolygiadau ail-sgorio er mwyn osgoi gorfod talu amdanynt.

56. Gan mai diben y tâl fyddai adennill costau i’r awdurdodau lleol sy’n cynnal yr arolygiadau ail-sgorio, mae’r opsiwn hwn yn cynnig bod yr awdurdodau lleol yn cadw’r incwm a ddaw yn sgil y tâl yn hytrach na’i drosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

# 8. Costau a Manteision

57. Mae'r bennod hon yn cynnwys manteision cost yr opsiynau. Mae'r manylion yn adran 7.

## *Costau*

**Opsiwn 1 – gwneud dim**

Gan fod yr opsiwn hwn yn cynnig dim newid ystyrir nad oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Ychydig o welliant fyddai i safonau hylendid bwyd drwy wneud dim.

58. Yr amcangyfrif o'r gost flynyddol o weithredu Cynllun Gwirfoddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, gan gynnwys y costau cychwyn untro, yw £244.000, yn seiliedig ar ffigur y DU o £4,247,996[9]

**Opsiwn 2 – mwy o hyrwyddo'r cynllun gwirfoddol presennol**

59. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai costau rheolaidd o £200,000 yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, a fyddai'n dod i ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

60. Y costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn fyddai talu am ymgyrch farchnata barhaol gyda'r nod o wella ymwybyddiaeth y defnyddwyr o'r cynllun. Gallai ymgyrch o'r fath gynnwys safleoedd bysiau a hysbysebu mewn papurau newydd. Yr ASB fyddai yn y sefyllfa fwyaf priodol i gynnal ymgyrch o'r fath. Amcangyfrifir y byddai'r costau yn £200,000 y flwyddyn, a fyddai'n cael eu talu o gyllideb yr ASB.

61. I'r awdurdodau lleol sydd wedi bod yn gweithredu'r cynllun yn wirfoddol ers ei gyflwyno ym mis Hydref 2010, cafwyd costau'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun, sy'n ychwanegol at y costau blaenorol a dalwyd i gynnal arolygiadau gorfodi'r gyfraith bwyd. Mae'r costau'n mynd yn bennaf ar hysbysu busnes bwyd o'r sgôr drwy roi'r sticer iddo, gweinyddu unrhyw apelau a gyflwynwyd yn erbyn y sgôr neu'r hawl i ateb, costau gweinyddu ychwanegol, a'r gost o gynnal arolygiadau ail-sgorio o dan y cynllun gwirfoddol. Talwyd y costau hyn o gyllidebau cyfredol yr awdurdodau lleol.

62. Ni fyddai hyrwyddo'r cynllun gwirfoddol presennol yn y modd a gynigir yn yr opsiwn hwn yn arwain at gostau uniongyrchol i'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gall arwain at gostau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ail-arolygu'r sefydliadau hynny na fyddai'r awdurdod lleol fel arall yn ailymweld â nhw, h.y. busnesau â sgôr o "3" a "4" (byddai'r busnesau â sgoriau is yn cael ailymweliad yn awtomatig beth bynnag). Gallai ceisiadau o'r fath godi pan

[9] Cynllun yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Tachwedd 2010) ar draws y DU ar gyfer sgorio safonau hylendid bwyd www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/iafhrs.pdf Tudalen 17, Tabl 12.

fydd gweithredwyr busnes bwyd yn awyddus i gael y sgôr uchaf oherwydd ymwybyddiaeth uwch o'r sgoriau gan y defnyddwyr.

63. O ran gweithredwyr busnes bwyd, ychydig o effaith a gafodd y cynllun gwirfoddol o ran costau gwirioneddol, ar wahân i wneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio'n well â'r ddeddfwriaeth hylendid bwyd, a thrwy hynny sicrhau gwell sgôr hylendid bwyd. Mae'r busnes yn cael ei annog i arddangos ei sticer ond mae hyn yn golygu mân gostau cysylltiedig. Mae'r opsiwn hwn yn annhebygol o gynyddu'r costau i weithredwyr busnes bwyd na chynhyrchu unrhyw welliant i safonau hylendid bwyd yng Nghymru neu leihau cost economaidd salwch a gludir mewn bwyd yng Nghymru.

**Tabl cryno o gostau ychwanegol (i'r cynllun gwirfoddol cyfredol) Opsiwn 2 (£)**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Cyfanswm | Gwerth Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | | | |
| Arolygiadau ailsgorio | | | | | | 0 | 0 |
| Masnach i fasnach (postio) | | | | | | 0 | 0 |
| Apelau | | | | | | 0 | 0 |
| Hysbysu Busnesau | | | | | | 0 | 0 |
| Gorfodi | | | | | | 0 | 0 |
| **Asiantaeth Safonau Bwyd** | | | | | | | |
| Marchnata | | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 800,000 | 734,616 |
| Masnach i fasnach (sticeri) | | | | | | 0 | 0 |
| Gwerthusiad | | | | | | 0 | 0 |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | |
| Hyfforddiant | | | | | | 0 | 0 |
| **Busnesau Bwyd** | | | | | | 0 | 0 |
| Tâl Ailymweliad | | | | | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Costau** | **0** | **200,000** | **200,000** | **200,000** | **200,000** | **800,000** | **734,616** |

**Opsiwn 3 – cyflwyno'r cynllun gorfodol**

64. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai costau i'r canlynol yn sgil yr opsiwn hwn –
(a) awdurdodau lleol;
(b) gweithredwyr busnes bwyd;
(c) yr ASB; a
(d) Llywodraeth Cymru.

*Y Costau i Awdurdodau Lleol*

65. Disgwylir y bydd cyflwyno'r cynllun gorfodol yn creu mwy o ddiddordeb yn y cynllun ar draws Cymru. Mae busnesau bwyd yn debygol o neilltuo mwy o sylw i'r sgoriau hylendid a ddyfarnwyd iddynt o dan gynllun gorfodol. Mae hyn yn debygol o arwain at awdurdodau lleol yn gorfod buddsoddi mwy o amser i'r cynllun, gan gynnwys cynnal mwy o arolygiadau ail-sgorio ar gais i fusnesau â sgôr o "3" a "4", na fyddent fel arall yn eu cynnal.

66. Bydd cost untro i awdurdodau lleol er mwyn hysbysu busnesau bwyd am gyflwyno'r cynllun sgorio hylendid bwyd gorfodol yng Nghymru. Bydd hysbysu 32,500 o fusnesau bwyd, gan gynnwys gweithredwyr masnach busnes i fusnes, gan ddefnyddio post ail ddosbarth, ar gost o £0.50c yr un, yn gwneud cyfanswm o £16,250. Amcangyfrifir costau gweinyddu o £5,300. Mae'r cyfanswm felly'n £21,550.

67. Amcangyfrifir y bydd angen i awdurdodau lleol fuddsoddi mwy o amser mewn cynllun gorfodol, yn y tymor byr, yn rhannol oherwydd rhagwelir y bydd mwy o geisiadau am arolygiadau ail-sgorio gan yr holl fusnesau gan eu bod yn dymuno gwella'u sgôr hylendid bwyd. Codwyd y costau sy'n gysylltiedig ag anfon gwybodaeth a ragnodwyd i fusnesau bwyd fel cost ychwanegol nad oedd yn cael ei chynnwys yn yr asesiad effaith gwreiddiol. Amcangyfrifir fod 2,500 o fusnesau bwyd yn cychwyn bob blwyddyn yng Nghymru. Amcangyfrifir y byddai £27,500 yn cael ei wario ar gostau postio a chostau gweinyddu er mwyn anfon gwybodaeth i 2,500 o fusnesau newydd. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys £2,500 ar gyfer postio a chost gweinyddu o £10 i bob busnes. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai awdurdodau lleol fod yn cyflawni'r gwaith hwn o dan y cynllun gwirfoddol (nid yw'r gost hon wedi'i chynnwys felly yn y tabl isod) ac y dylid talu am y costau rheolaidd hyn o adnoddau presennol yr awdurdodau lleol.

68. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n amcangyfrif y byddai cost gyffredinol arolygiad o'r fath oddeutu £150. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun gwirfoddol cynhaliwyd 500 o arolygiadau ailraddio (amcangyfrif cost o £75,000 ar hyn o bryd) ac amcangyfrifwyd y byddai hyn yn codi i oddeutu 1,800 o ymweliadau wrth gyflwyno'r cynllun gorfodol. Byddai hyn yn gwneud cyfanswm o 1300 o ymweliadau ychwanegol gydag amcangyfrif o'r gost reolaidd yn £195,000 y flwyddyn i'r awdurdodau lleol. Amcangyfrifir y bydd y gost hon yn lleihau tua 50% ar ôl 4 blynedd o weithredu'r cynllun gorfodol. Hefyd, disgwylir y bydd cynnydd yn nifer yr apelau o 40 i 80 wrth gyflwyno cynllun statudol. Ar gyfartaledd bydd yn cymryd 3 awr i ystyried apêl ar raddfa o £40 yr awr, sef cyfanswm o £120. Byddai hyn yn golygu 40 o apelau ychwanegol ar gost reolaidd o £4,800.

69. Bydd rhaid rhoi sticeri hylendid bwyd i 2,500 o fusnesau masnach i fasnach ar gost o £3,000 (gan gynnwys costau postio a gweinyddu). Yr ASB fydd yn talu am y sticeri. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sgorio hylendid bwyd ar sail asesiadau o safonau hylendid bwyd sefydliad a gynhaliwyd cyn cychwyn y Ddeddf. Caiff y costau hyn eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y rheoliadau ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl isod, ond amcangyfrifir y bydd angen rhoi'r sticeri hylendid newydd i 15,000 o fusnesau bwyd ar gost untro o £17,500 (gan gynnwys postio a gweinyddu). Bydd costau o tua £110,000 y flwyddyn i awdurdodau lleol am weithredu a chynnal camau gorfodi dilynol am ddwy flynedd ar ôl cychwyn y cynllun gorfodol, ac ariennir hyn gan Lywodraeth Cymru (gweler paragraff 83).

70. Rhagwelir y bydd y cynnydd yn y costau yn debygol o fod ar ei uchaf rhwng 2012-2015. Yn ystod y cyfnod hwn disgwylir y bydd y mwyafrif o'r 12,500 o fusnesau bwyd sydd heb gael sgôr hylendid yn cael eu sgorio, a hefyd bydd busnesau bwyd yn dymuno gwella eu sgoriau hylendid cyn i'r cynllun gorfodol ddod i rym. Ar ôl hynny, disgwylir y bydd y costau'n gostwng yn raddol.

71. Mae Opsiwn 4 (gweler isod) yn cynnig adennill costau ar gyfer ailarolygiadau; nid yw'n berthnasol i'r opsiwn hwn.

*Gorfodi, gan gynnwys hysbysiadau cosb benodedig ac erlyniadau*

72. Cynigir y bydd y cynllun gorfodol yn ei gwneud yn dramgwydd i weithredwyr busnes bwyd beidio ag arddangos neu ddatgelu eu sgoriau hylendid bwyd yn y modd a bennir o dan y cynllun neu ymyrryd â'r sgoriau hynny neu'u ffugio. Bwriedir y bydd awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig mewn achos o ddiffyg cydymffurfiaeth.

73. Mae'r Bil yn nodi y bydd yr Hysbysiadau hyn yn £200, er y bydd y gosb £50 yn is (25 y cant) os telir y ddirwy o fewn 14 diwrnod.

74. Disgwylir y bydd y mwyafrif helaeth o fusnesau bwyd yn cydymffurfio â'r gofyniad i arddangos eu sgoriau hylendid yn unol â'r cynllun gorfodol. At hynny, rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei weithredu ar y cychwyn drwy berswâd yn hytrach na thrwy bennu cosbau. Felly rhagwelir y bydd yr enillion a ddaw o'r Hysbysiadau yn isel iawn. Sut bynnag, mae'r Hysbysiadau'n cynrychioli taliad trosglwyddo (o'r busnes bwyd i'r Llywodraeth) ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad economaidd hwn. Bydd yr enillion o'r Hysbysiadau'n cael eu rhoi yn ôl i Weinidogion Cymru ac o bosibl yn cael eu hailddosbarthu i'r ASB neu i'r awdurdodau lleol i'w defnyddio ar gyfer hyfforddiant hylendid bwyd, gan ddibynnu ar y symiau sydd ar gael.

75. Rydym yn gobeithio, gyda chymorth aelodau'r cyhoedd, y bydd defnyddwyr yn rhoi gwybod i'r awdurdodau lleol am fusnesau bwyd nad ydynt yn arddangos eu sgoriau. Dylai lefelau uchel o gydymffurfiaeth gan fusnesau a chefnogaeth y cyhoedd helpu i leihau'r angen i swyddogion yr awdurdodau lleol blismona'r gwaith o arddangos y sgoriau. Bydd yr opsiwn i erlyn ar gael i'r awdurdod lleol ei ystyried fesul achos. Y bwriad yw defnyddio'r pwerau hyn fel rhan o ddull cyffredinol o orfodi'n raddol, ac i ddelio â busnes bwyd yn arddangos sgôr yn dwyllodrus neu i gymryd camau yn erbyn tramgwyddwyr cyson.

*Y Costau i weithredwyr busnes bwyd*

76. Mae eisoes yn ofynnol i weithredwyr busnes bwyd gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â safonau hylendid. Mae sgôr yn cael ei rhoi eisoes fel rhan o'r broses bresennol. Gan fod yr opsiwn hwn yn cynnig creu cynllun tebyg (ond gorfodol) ystyrir na fydd unrhyw gostau ychwanegol i weithredwyr busnes bwyd yn gysylltiedig â sgorio'r busnes. Yn yr un modd,

disgwylir mai isel iawn fydd y costau ychwanegol i fusnesau wrth orfod arddangos y sgôr.

77. Fodd bynnag, gallai arddangos y sgôr yn orfodol gael effaith negyddol ar fusnesau bwyd unigol mewn achosion lle dyfernir sgôr o “3”, sef boddhaol ar y cyfan. Mewn achosion o’r fath, bydd angen i’r gweithredwr busnes fuddsoddi (amser ac/neu arian) i wella safonau hylendid a gwneud cais am arolygiad pellach (ac ailsgorio) neu fod mewn perygl o golli cwsmeriaid a refeniw i gystadleuwyr. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i fusnesau bwyd â sgôr is y byddai’r awdurdod lleol yn gorfod mynd ar eu hôl beth bynnag.

78. Disgwylir na fydd braidd dim effaith economaidd net yn digwydd yn sgil unrhyw ailddosbarthu refeniw ymysg busnesau bwyd. Bydd unrhyw ddiffyg mewn refeniw i un busnes yn golygu cynnydd mewn refeniw i fusnes neu fusnesau eraill (â sgoriau cymharol uchel).

79. Mae’r Bil yn darparu y gall gweithredwr busnes bwyd wneud cais am arolygiad ailsgorio. Fodd bynnag, mae’n anodd iawn amcangyfrif pa mor aml y bydd ceisiadau am arolygiadau ailsgorio’n digwydd ac mae’r gost o wella safonau hylendid yn debygol o amrywio fesul achos. Mater i’r gweithredwyr busnes bwyd fydd cydbwyso’r costau o wella safonau hylendid bwyd yn erbyn yr effaith negyddol y gallai cadw’r sgôr wreiddiol ei chael ar y busnes.

*Y Costau i’r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)*

80. Mae Llywodraeth Cymru, ar ôl trafod â’r ASB, yn ystyried y bydd y cynnydd yn y diddordeb a ragwelir gan weithredwyr busnes bwyd yn y cynllun gorfodol yn annhebygol o arwain at gostau ychwanegol sylweddol i’r ASB. Gellir talu am gostau marchnata’r cynllun gorfodol, sef £100,000, a chostau gwerthuso’r cynllun gorfodol, sef £50,000 (bob 3 blynedd), o fewn cyllideb bresennol yr ASB.

81. Mae’r ASB yn disgwyl y bydd yn delio â mwy o ymholiadau oddi wrth fusnesau a defnyddwyr a mwy o alw am sticeri. Bydd rhaid i’r ASB roi 2,500 o sticeri ychwanegol i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gost o £1,000 er mwyn rhoi sgôr hylendid bwyd i fusnesau masnach i fasnach. Bydd cyllidebau presennol yr ASB yn talu am amser staff i gyflawni’r gwaith hwn ond gall olygu y bydd yn effeithio rywfaint ar amcanion eraill yr ASB. Mae’r ddeddfwriaeth yn caniatáu i reoliadau ddarparu bod sgoriau hylendid bwyd yn seiliedig ar asesiadau o safonau hylendid bwyd sefydliad a gynhaliwyd cyn cychwyn y Ddeddf hon. Bydd hyn yn golygu ail-roi sgoriau hylendid bwyd i oddeutu 15,000 o fusnesau bwyd mewn cyfnod o flwyddyn. Bydd angen rhoi sylw i’r gost hon yn yr RIA i’r Rheoliadau, ond ar sail y costau cynhyrchu cyfredol o £0.40 y sticer X 15,000 mae hyn yn debygol o gostio £6,000. Mae’r ASB yn prynu’r sticeri a roddir yn rhad ac am ddim i awdurdodau lleol. Caiff y costau hyn eu cynnwys yn yr asesiad effaith o’r rheoliadau ac nid ydynt wedi’u cynnwys yn y tabl isod.

82. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â gweithredu'r cynllun sgorio hylendid bwyd gwirfoddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Un eithriad i hyn yw'r ddyletswydd ar yr ASB i gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r cynllun a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru o fewn 3 blynedd i gychwyn y cynllun gorfodol a bob 3 blynedd yn dilyn hynny. Mae hwn yn gyfrifoldeb newydd ac amcangyfrifir y bydd yn costio oddeutu £50,000, a delir o gyllideb bresennol yr ASB.

*Y Costau i Lywodraeth Cymru*

83. Yr awdurdodau lleol sy'n gweithredu'r cynllun gwirfoddol yng Nghymru a'r ASB sy'n cydgysylltu'r gwaith. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r ASB yng Nghymru, ac ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011/12 £3,242,000 oedd y cyllid hwn. Cyllideb yr ASB ar gyfer 2012-13 yw £3,242,000 ar hyn o bryd.

84. Y prif oblygiadau o ran costau i Lywodraeth Cymru fydd darparu cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru i orfodi'r cynllun gorfodol a darparu hyfforddiant i staff awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun gorfodol, disgwylir i'r costau fod yn £120,000, sy'n cynnwys £110,000 ar gyfer gorfodi a chostau untro o £10,000 ar gyfer hyfforddi staff awdurdodau lleol. Bydd y £110,000 ar gyfer gorfodi'r un peth yn yr ail flwyddyn. Bydd cyllidebau presennol yn talu am amser staff ar gyfer y gwaith hwn.

85. Mae'n opsiwn hwn yn debygol o wella'r safonau hylendid bwyd yng Nghymru a gall gael effaith gadarnhaol o ran lleihau'r gost economaidd o salwch a gludir mewn bwyd yng Nghymru. Os gwelir lleihad yn y gost economaidd o salwch a gludir mewn bwyd yng Nghymru, bydd yn anodd iawn mesur i ba raddau y byddai cyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd gorfodol yng Nghymru wedi arwain at unrhyw leihad o'r fath.

**Tabl cryno o gostau ychwanegol (i'r cynllun gwirfoddol cyfredol) Opsiwn 3 (£)**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Cyfanswm | Gwerth presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | | | |
| Arolygiadau ailsgorio | | 195,000 | 165,000 | 135,000 | 100,000 | 595,000 | 551,342 |
| Masnach i fasnach (postio) | | 3,000 | | | | 3,000 | 2,899 |
| Apelau | | 4,800 | 4,800 | 4,800 | 4,800 | 19,200 | 17,631 |
| Hysbysu Busnesau | | 21,550 | | | | 21,550 | 20,821 |
| Gorfodi | | 110,000 | 110,000 | | | 220,000 | 208,966 |
| **Asiantaeth Safonau Bwyd** | | | | | | | |
| Marchnata | | 100,000 | 100,000 | | | 200,000 | 189,969 |
| Masnach i fasnach (sticeri) | | 1,000 | | | | 1,000 | 966 |
| Gwerthuso | | | | | 50,000 | 50,000 | 43,572 |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | |
| Hyfforddiant | | 10,000 | | | | 10,000 | 9,662 |
| **Busnesau Bwyd** | | | | | | | |
| Tâl ailymweliad | | | | | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Costau** | **0** | **445,350** | **379,800** | **139,800** | **154,800** | **1,119,750** | **1,045,828** |

**Opsiwn 4 – cyflwyno'r cynllun gorfodol gan adennill costau ar gyfer arolygiadau ailsgorio hylendid bwyd**

86. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn debyg ar y cyfan i Opsiwn 3, ac eithrio sut mae ailymweliadau'n cael eu hariannu.

*Y Costau i weithredwyr busnes bwyd*

87. O dan yr opsiwn hwn, bydd awdurdodau lleol yn codi tâl ar fusnesau bwyd i adennill costau pan fyddant y gofyn am ailymweliad. Fel y nodir uchod, os yw'r cynllun gorfodol yn cael ei gyflwyno, gallai'r galw gan weithredwyr busnes bwyd am ailarolygiadau, gyda'r posibilrwydd o wella eu sgoriau, gynyddu'n sylweddol a bod yn faich ar awdurdodau lleol. Er bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau i fodloni eu hymrwymiadau statudol, gallai niferoedd sylweddol o arolygiadau ailsgorio gael effaith ar yr adnoddau i gynnal ymweliadau gorfodi statudol. Byddai cyflwyno'r pŵer i adennill costau trwy godi tâl am arolygiadau ailsgorio ar gyfer y cynllun gorfodol yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol reoli goblygiadau'r cynllun hwnnw ond byddai'n tarfu ar y busnes bwyd.

88. Disgwylir y bydd gwneud arddangos sgôr yn orfodol yn arwain at gynyddu nifer yr arolygiadau ailsgorio y gwneir cais amdanynt o 500 i oddeutu 1,500. Mae nifer yr ailymweliadau a ragwelir yn 300 yn is nag yn Opsiwn 3 uchod gan fod tâl cysylltiedig o dan Opsiwn 4. Yn seiliedig ar gost o tua £150 ar gyfartaledd am bob ymweliad, mae hyn yn golygu cost ychwanegol o £150,000. Bydd cyfanswm cost yr ailarolygiadau (gan gynnwys y 500 y flwyddyn sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd) oddeutu £225,000. Mae'r gost yn debygol o ostwng 50% ar ôl 4 blynedd o weithredu'r cynllun gorfodol. Yn yr opsiwn hwn, y busnesau bwyd fydd yn talu'r gost. Mae'n bosibl y bydd nifer y ceisiadau am arolygiadau ailsgorio'n codi cyn i'r cynllun gorfodol ddod i rym, a gall y nifer godi hefyd oherwydd cyflwyno tâl am ailarolygiadau ailsgorio. Rydym yn amcangyfrif y bydd potensial pwysau ychwanegol o £166,500 (ffigur tybiannol) yn codi o geisiadau gan fusnesau bwyd am arolygiadau ailsgorio cyn bod y cynllun gorfodol yn dod i rym. Yn y tabl isod, rhagdybir fod yr holl gost yn codi yn 2012-13 (er y gall cyfran ohoni, mewn gwirionedd, godi yn ystod hanner cyntaf 2013-14). Ar hyn o bryd mae Awdurdodau Lleol yn cynnal yr ailarolygiadau gan eu bod yn cymryd rhan yn y cynllun gwirfoddol ond nid yw'n ddyletswydd statudol arnynt i wneud hynny. Ni allant adfer y gost am arolygiadau o'r fath.

89. Aneglur yw'r effaith y gall codi tâl am adennill costau ei chael ar y galw am arolygiadau ailsgorio. Bydd angen i fusnesau gydbwyso'r gost o gynnal arolygiad ailsgorio, a'r tebygolrwydd o wella'r sgôr, yn erbyn yr effaith negyddol y gallai cadw'r sgôr wreiddiol ei chael ar y busnes.

**Tabl cryno o gostau ychwanegol (i'r cynllun gwirfoddol cyfredol) Opsiwn 4 (£)**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Cyfanswm | Gwerth Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | | | |
| Arolygiadau ailsgorio | 166,500 | | | | | 166,500 | 166,500 |
| Masnach i fashacn (postio) | | 3,000 | | | | 3,000 | 2,899 |
| Apelau | | 4,800 | 4,800 | 4,800 | 4,800 | 19,200 | 17,631 |
| Hysbysu Busnesau | | 21,600 | | | | 21,550 | 20,821 |
| Gorfodi | | 110,000 | 110,000 | | | 220,000 | 208,966 |
| **Asiantaeth Safonau Bwyd** | | | | | | | |
| Marchnata | | 100,000 | 100,000 | | | 200,000 | 189,969 |
| Masnach i fasnach (sticeri) | | 1,000 | | | | 1,000 | 966 |
| Gwerthuso | | | | | 50,000 | 50,000 | 43,572 |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | |
| Hyfforddiant | | 10,000 | | | | 10,000 | 9,662 |
| **Busnesau Bwyd** | | | | | | | |
| Tâl ailymweliad | | 225,000 | 195,000 | 155,000 | 115,000 | 690,000 | 639,443 |
| **Cyfanswm Costau** | **166,500** | **475,350** | **409,800** | **159,800** | **169,800** | **1,381,250** | **1,300,429** |

## *Manteision*

### Opsiwn 1 – gwneud dim

90. Ystyrir nad oes unrhyw fanteision ychwanegol i ddefnyddwyr, gweithredwyr busnes bwyd, yr ASB nac awdurdodau lleol o'r opsiwn hwn.

### Opsiwn 2 – mwy o hyrwyddo'r cynllun gwirfoddol presennol

91. Ystyrir mai prif fantais yr opsiwn hwn fyddai mwy o ymwybyddiaeth gan y defnyddwyr am y cynllun gwirfoddol, a hynny yn sgil yr ymgyrchoedd cyhoeddus. Fodd bynnag, ystyrir y byddai'n annhebygol y byddai hyn yn unig yn golygu newid sylweddol mewn ymddygiad a fyddai'n dylanwadu ar yr holl fusnesau bwyd i arddangos eu sgoriau. Felly, mae'r opsiwn hwn yn annhebygol iawn o gael unrhyw effaith ar safonau hylendid bwyd, neu ar ddewis y defnyddwyr.

### Opsiwn 3 – cyflwyno'r cynllun gorfodol

92. Mae arddangos sgoriau hylendid yn orfodol yn gam naturiol ymlaen o'r cynllun gwirfoddol. Er mwyn i'r cynllun weithio'n effeithiol mae angen i bob busnes bwyd gymryd rhan ac arddangos y sgoriau hylendid a ddarperir gan eu hawdurdodau lleol perthnasol. Os oes dewis i arddangos neu beidio, fel sy'n digwydd nawr, byddai'r busnesau bwyd yn annhebygol o ddangos sgôr hylendid isel a allai gadw cwsmeriaid draw o'u busnes bwyd. Yr unig ffordd deg yw mynnu bod pob busnes bwyd yn arddangos eu sgôr - dyma'r ffordd fwyaf rhesymol hefyd o sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth berthnasol ym mhob sefydliadu sy'n agored i'r cynllun.

93. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r busnesau sydd â sgoriau isel arddangos y sgoriau hynny, gan alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau cytbwys

ynghylch ble i fwyta neu brynu bwyd. Gallai busnesau â sgoriau isel golli cwsmeriaid a byddai hynny'n eu hysgogi i wella eu safonau hylendid. Mae busnesau bwyd â sgoriau hylendid da yn debygol o weld cynnydd cymesurol yn eu busnes. Y mwyaf o fusnesau sy'n penderfynu cymryd camau i wella eu sgoriau, y gorau oll o ran gwella cydymffurfiaeth â'r gyfraith bwyd. Nodwyd manteision y cynllun gorfodol mewn gwledydd eraill ac maent yn gam cadarnhaol ymlaen i Gymru wrth geisio ymdrin â pheryglon iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â bwyd, a lleihau'r peryglon hynny.

94. Ceir tystiolaeth ryngwladol o fanteision cynlluniau sgorio hylendid bwyd gorfodol. Er enghraifft, yn ôl ymchwil a wnaed yn Denmarc[10] awgrymwyd bod 19 y cant o weithredwyr busnes bwyd wedi gwella safonau hylendid yn eu mangreoedd. Adroddodd Jin a Leslie (2003)[11] fod cynllun tebyg yn Los Angeles wedi arwain at fwytai'n codi safonau hylendid tua 5 y cant, ac yn ystod y cyfnod yn dilyn cyflwyno'r cynllun, fod derbyniadau i ysbytai yn gysylltiedig ag achosion bwyd wedi gostwng tua 20 y cant.

95. Anodd iawn yw mesur yr effaith y bydd y polisi hwn yn ei chael ar nifer yr achosion o wenwyno bwyd yng Nghymru, a hynny oherwydd nad oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd am faint o'r achosion presennol a achoswyd gan safonau hylendid gwael mewn sefydliadau bwyd a faint a achoswyd gan hylendid gwael yn y cartref. Os yw arddangos sgôr yn orfodol yn arwain at ostyngiad o 0.5 y cant yn nifer yr achosion o wenwyno bwyd yng Nghymru bob blwyddyn, byddai'r fantais i economi Cymru oddeutu £0.5 miliwn y flwyddyn. Byddai arbediad o'r fath yn ddigon i'r cynllun gynhyrchu Gwerth Presennol Net cadarnhaol.

96. Mae'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cytuno i gymryd rhan yn y cynllun gwirfoddol. Bydd y cyfranogiad gorfodol yn cydnabod rôl bwysig awdurdodau lleol wrth ddarparu'r cynllun gorfodol yng Nghymru. Heb eu cyfraniad nhw ni fyddai'r cynllun yn gweithio. Mae'r gofyniad gorfodol i gyfranogi yn sicrhau bod yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru'n cymryd rhan yn y cynllun gorfodol ac yn sicrhau dyfodol y cynllun yng Nghymru.

**Opsiwn 4 – cyflwyno'r cynllun gorfodol gan adennill costau ar gyfer arolygiadau ailsgorio hylendid bwyd**

97. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn diogelu holl fanteision Opsiwn 3. Ond yn ychwanegol at hyn bydd codi tâl yn orfodol am ailarolygiadau o dan y cynllun gorfodol yn cyfrannu at adnoddau'r awdurdodau lleol ar gyfer arolygiadau gorfodi cyfraith bwyd. Bydd hefyd yn cynnig rhywfaint o ddiogelwch yn erbyn y galw cynyddol a ddisgwylir mewn cysylltiad â chyflwyno'r cynllun gorfodol.

---

[10] Ar gael yn http://www.findsmiley.dk/en-US/Forside.htm

[11] Jin G; Leslie P (2003). *The effect of information on product quality: Evidence from restaurant hygiene grade cards.* Cyfnodolyn Economeg chwarterol 118(2) 409-451 a Jin, G; Leslie P (2005). *The Effect of Information on Product Quality: Evidence from Restaurant Hygiene Grade Cards.*

98. Ar hyn o bryd mae tua 500 o geisiadau am ailymweliadau ac ailarolygiadau, a'r gost yn cael ei thalu gan yr awdurdod lleol perthnasol. O dan yr opsiwn hwn, y busnes bwyd fydd yn talu am yr ailymweliad. Felly, o'i gymharu â'r opsiwn 'Gwneud Dim', mae'r awdurdod lleol yn arbed costau (mantais). Yn seiliedig ar y gost ragdybiedig o £150 am bob ailymweliad, mae hyn yn arbediad o tua £75,000 y flwyddyn i awdurdodau lleol. Gwerth presennol y fantais hon (yr arbediad cost) yw oddeutu £275,500 yn ystod pedair blynedd gyntaf y cynllun.

### *Crynodeb a'r opsiwn dewisedig*

99. Er mai ers ychydig dros flwyddyn y mae'r cynllun gwirfoddol wedi bod ar waith yng Nghymru, mae'n amlwg mai'r prif wendid yw'r ffaith na all yr ASB na'r awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos eu sgoriau, yn enwedig pan yw'r rhain yn sgoriau is fel '0', '1' a '2'.

100. Er mwyn i'r cynllun gorfodol weithio'n effeithiol er lles gorau'r defnyddiwr, rhaid i'r holl fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid. Ar yr un pryd, rhaid diogelu adnoddau'r awdurdodau lleol ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd.

101. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried mai Opsiwn 4 (cyflwyno'r cynllun gorfodol gan adennill costau ar gyfer arolygiadau ailsgorio hylendid bwyd) yw'r ffordd orau ymlaen er mwyn sicrhau safonau hylendid bwyd gwell yng Nghymru. Bydd yr Opsiwn hwn yn cael yr effaith fwyaf ar wella safonau bwyd ac yn lleihau'r peryglon o wenwyno bwyd heb roi mwy o faich ar adnoddau ariannol yr awdurdodau lleol.

102. O dan y cynigion hyn Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno cynllun gorfodol. Bydd y cynllun gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos sticer ac yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ei weithredu. Bydd y cynnig i gyflwyno pwerau gorfodol i awdurdodau lleol godi tâl am adennill y gost lawn o ail-arolygu sgoriau hylendid bwyd yn sicrhau y gallant fodloni'r ceisiadau ychwanegol a ragwelir am arolygiadau ailsgorio a hefyd ddiogelu'r adnoddau i gynnal arolygiadau gorfodi o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

103. Mae'r tabl isod yn cymharu'r costau a'r manteision ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiynau 2, 3 a 4. Mae'r data'n dod o dablau cryno pob opsiwn (uchod). Mae Gwerth Presennol Net (NPV) pob opsiwn yn negyddol ond nid yw hyn yn ystyried y manteision iechyd cadarnhaol y disgwylir iddynt gronni yn dilyn cyflwyno Opsiynau 3 neu 4. Fel y nodir uchod, mae'n anodd mesur effaith y cynllun ar gost achosion gwenwyno bwyd yng Nghymru bob blwyddyn. Fodd bynnag, byddai mantais flynyddol o £500,000 (yn seiliedig ar ostyngiad o 0.5 y cant yn nifer yr achosion o wenwyno bwyd yng Nghymru bob blwyddyn – gweler paragraff 103) yn ddigon i gynhyrchu NPV cadarnhaol o dan Opsiynau 3 a 4.

### *Tabl cryno*

| | Gwerth Presennol y Costau | Gwerth Presennol y Mantelsion | Gwerth Presennol Net |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 2** | 734,616 | 0 | -734,616 |
| **Opsiwn 3** | 1,045,828 | 0 | -1,045,828 |
| **Opsiwn 4** | 1,300,429 | 275,500 | -1,024,948 |

**Nodyn:**
(1) Mae'r fantais o £275,000 a welir o dan Opsiwn 4 yn arbediad cost i'r awdurdodau lleol gan eu bod yn gallu codi tâl am ailarolygiadau.

## ***Asesiadau Effaith Penodol***

104. Cwblhawyd cyfres o asesiadau effaith ar y Bil drafft fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Cafodd yr asesiadau effaith hyn eu hadolygu yn dilyn ymgynghoriad y Bil drafft. Mae trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar effeithiau'r polisi wedi'i gynnwys yn Adroddiad Cryno'r Bil drafft. Ni chafwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol o'r adolygiad o'r asesiadau effaith na'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Yr effaith ar fusnesau bach**

105. Mae manylion am amcangyfrif o'r costau ariannol i weithredwyr busnes bwyd i'w gweld yn y tabl cryno uchod.

106. Bydd y Bil yr un mor gymwys i'r holl fusnesau bwyd sydd wedi'u cofrestru ar gyfer arolygiad o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mynegwyd rhai pryderon gan fusnesau bwyd bach, fel gwestai bach, o'r effaith y bydd cyflwyno cynllun gorfodol yn ei chael ar eu busnesau. Mae'r effaith o dalu am arolygiad ailsgorio yn debygol o fod yn uwch i fusnesau bach nag i fusnes mwy o faint neu i fusnesau cadwyn bwyd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gwestai bach gynnal y safonau hylendid bwyd uchaf i'w cwsmeriaid a bod yn agored i'r un broses orfodi â bwytai a siopau tecawê. Bydd busnesau bach yn gallu defnyddio sgoriau hylendid bwyd da fel dull o hyrwyddo eu busnes.

**Yr effaith ar y sector gwirfoddol**

107. Bydd sefydliadau sector gwirfoddol sy'n gweithredu fel busnes bwyd o fewn sgôp y cynllun yn agored i'r cynllun gorfodol ac felly bydd yn rhaid iddynt dalu costau tebyg i weithredwyr busnes bwyd eraill. Prin iawn, os o gwbwl, fydd yr effaith ar y sector gwirfoddol o gyflwyno'r rheolaethau deddfwriaethol hyn.

**Asesiad effaith cydraddoldeb**

108. Mae'r cynllun gwirfoddol wedi bod ar waith yng Nghymru ers ychydig dros flwyddyn a chyhoeddodd yr ASB asesiad effaith rheoleiddiol ar y cynllun hwnnw (yn y DU) ym mis Tachwedd 2010[12]. Yn ôl yr adroddiad hwn nid oedd unrhyw dystiolaeth i nodi effaith wahaniaethol o ran hil, rhyw neu anabledd wrth weithredu'r cynllun.

109. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru, yr ASB a'r Awdurdodau Lleol wedi'u cynnwys yn y Bil. Bydd Llywodraeth Cymru'n annog yr ASB ac awdurdodau lleol i roi ystyriaeth i effeithiau cydraddoldeb fel rhan o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

110. Ar hyn o bryd, yn ôl y cynllun gwirfoddol mae'n ofynnol i sgoriau gael eu cyhoeddi ar wefan genedlaethol yr ASB. Bydd y gofyniad i arddangos sgoriau hylendid mewn mangreoedd busnes bwyd yn orfodol yn lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru i'r bobl hynny nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd (30 y cant o bobl Cymru). Mae arddangos sgôr hylendid bwyd yn y sefydliadau bwyd, y gellir ei gweld yn hawdd gan y defnyddiwr, yn ffordd effeithiol o sicrhau bod gan bawb yr un mynediad i wybodaeth. Mae gan fynediad cyfartal i wybodaeth hefyd effaith gadarnhaol o ran gwahaniaethu ar sail oedran gan nad yw 73 y cant o bobl dros 65 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd ac maent yn fwy agored i glefydau a gludir mewn bwyd (yn ôl Ffocws Defnyddwyr Cymru).

111. Nid ystyrir bod y cynllun gorfodol yn cael effaith fawr ar anabledd; fodd bynnag, bydd arddangos a gosod y sticer sgôr hylendid bwyd yn effeithio ar y rhai sydd â nam ar eu golwg. Bydd hyn yn ffurfio rhan o asesiad effaith polisi cydraddoldeb y rheoliadau. Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i weithredydd busnes bwyd roi gwybod i gwsmeriaid am eu system sgorio hylendid bwyd ar lafar os gofynnir iddo, a bod peidio â gwneud hynny'n dramgwydd Bydd anghenion hyfforddi gweithredwyr busnes bwyd yn ystod y cyfnod trosiannol o'r cynllun gwirfoddol i'r cynllun gorfodol yn effeithio ar anabledd, er enghraifft y dewis o leoliad ar gyfer cynnal yr hyfforddiant.

112. I fodloni'r effeithiau ar gydraddoldeb hiliol, bydd angen rhoi ystyriaeth i amrywiaeth o ieithoedd wrth gyflwyno'r cynllun gorfodol fel rhan o ddatblygu deunyddiau hyfforddi a hyrwyddol. Er mwyn gorfodi'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB), pan fydd angen cynnal arolygiad mewn iaith arall ar wahân i iaith y swyddog arolygu, bydd angen i'r awdurdod lleol ddarparu ar gyfer hynny cyn cynnal yr arolygiad.

113. Rhoddwyd ystyriaeth i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fel rhan o sgrinio'r asesiad cydraddoldebau. Mae'r Bil yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn.

---

[12] http://www.food.gov.uk/foodindustry/regulation/betregs/ria/ria2010/fhrs

114. Nid oes tystiolaeth sy'n dangos bod effaith wahaniaethol o ran Rhywedd ac Ailbennu Rhywedd, Crefydd a Chredo a Diffyg Credo, Cyfeiriadedd Rhywiol, Beichiogrwydd a Mamolaeth neu Bartneriaethau Sifil.

**Yr effaith ar ddatblygiad cynaliadwy**

115. Fel rhan o sgrinio effaith y polisi ar gyfer y Bil drafft, rhoddwyd ystyriaeth i'r pum prif ddangosydd yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Roedd dau ddangosydd yn berthnasol, sef Economi Gynaliadwy a Chymdeithas Gynaliadwy.

116. Rhoddwyd ystyriaeth i amcanion polisi y Bil drafft o ran yr effaith bosibl y gallent ei chael yn erbyn y dangosyddion ar gyfer economi a chymdeithas gynaliadwy.

117. Disgwylir y bydd y cynllun gorfodol yn golygu mwy o gystadleurwydd rhwng busnesau bwyd gan fod sgoriau da yn debygol o ddenu mwy o fusnes. Bydd y ffaith fod busnesau bwyd yn dymuno cael sgoriau uwch yn golygu mwy o gydymffurfiaeth â chyfraith bwyd, gan greu lefel uchel a chyson o ddiogelwch bwyd ar draws Cymru. Mae'r cynllun yn gynaliadwy gan fod gan holl fusnesau bwyd Cymru yr wybodaeth am y camau sydd angen iddynt eu cymryd er mwyn i'w busnes bwyd gyrraedd y sgôr hylendid bwyd uchaf o dan y cynllun. Ceir hefyd broses apelio yn erbyn y sgôr. Ystyrir bod risg isel o gynnydd mewn diweithdra lle nad yw'r gweithredwyr busnes bwyd yn bodloni safonau hylendid ac yn cau eu busnes.

118. Mae cefnogi cymdeithas gynaliadwy yn ganolog i'r polisi a fwriedir ar gyfer cynllun gorfodol. Mae'n rhoi sylw i anghydraddoldeb iechyd a mynediad i wybodaeth drwy gyflwyno sgoriau hylendid sy'n hawdd cael mynediad iddynt ac yn galluogi defnyddwyr i wneud dewis mwy cytbwys ynghylch ble i fwyta neu siopa. Disgwylir y bydd cyflwyno'r cynllun gorfodol yn arwain at wella safonau hylendid bwyd a bydd hynny'n helpu i ddiogelu iechyd a buddiannau defnyddwyr.

**Rhestr wirio prawfesur polisïau gwledig**

119. Bydd cyflwyno'r Bil drafft yn gweld cynnydd bach i'r teithio yn ardaloedd cefn gwlad pan fydd arolygyddion awdurdodau lleol yn bodloni'r galw am fwy o arolygiadau ailsgorio hylendid bwyd, fel y rhagwelir. Gall arolygiadau'r awdurdodau lleol o fusnesau bwyd gymryd mwy o amser mewn ardaloedd cefn gwlad gan fod yr amser teithio'n fwy. Ond mae hyn yn debygol o gael ei wrthbwyso gan y bydd swyddogion yn gweithio o swyddfeydd ardal yr awdurdod lleol. Mae'r Bil yn cynnig y dylid adennill costau'n orfodol oddi wrth weithredwyr busnes bwyd ar gyfer arolygiadau ailsgorio. Cynigir ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol hysbysu busnes bwyd cyn yr arolygiad ailsgorio, a bod y tâl yn cael ei godi mewn ffordd sy'n sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd yn cael gwybod beth yw'r swm.

120. Disgwylir y bydd codi safonau hylendid bwyd a mwy o fynediad i wybodaeth am gydymffurfiaeth â hylendid bwyd gan weithredwyr busnes bwyd yn cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth yng Nghymru, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig.

**Yr effaith ar yr iaith Gymraeg**

121. Mae gan yr ASB Bolisi Iaith Gymraeg, ac mae'r holl ddeunydd sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cynllun gwirfoddol yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg yr ASB.

122. Nid oes perygl y bydd y cynllun gorfodol yn cael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg. Bydd angen i'r symudiad a fwriedir o gynllun gwirfoddol i gynllun gorfodol yng Nghymru gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n annog awdurdodau lleol i ymgorffori newidiadau i'w polisïau Iaith Gymraeg unigol wrth ystyried cyflwyno'r cynllun gorfodol.

# 9. Asesiad o'r gystadleuaeth

123. Mae'n ofynnol cwblhau'r hidlydd cystadleuaeth os yw'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar fusnes, elusennau a/neu'r sector gwirfoddol. Bydd y polisi'n effeithio ar fusnesau bwyd yng Nghymru gan y bydd gofyn iddynt arddangos eu sgôr hylendid bwyd. Bydd y gofyniad i arddangos eu sgôr yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o weithredwyr busnes bwyd.

124. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau'r hidlydd cystadleuaeth –

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd a fydd yn gweld effaith y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10 y cant o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd a fydd yn gweld effaith y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20 y cant o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd a fydd yn gweld effaith y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, o leiaf 50 y cant o gyfran y farchnad? | Oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau lawer yn fwy nag eraill? | Na |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint busnesau/sefydliadau? | Na |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu botensial, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol dalu amdanynt? | Na |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu botensial, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol dalu amdanynt? | Na |
| **C8**: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym? | Na |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu nwyddau? | Na |

Nodyn: Y farchnad yr effeithir arni yng Nghwestiynau 1 i 3 yw'r sector archfarchnadoedd.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

125. Mae cymal 13 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r ASB, o fewn tair blynedd i gychwyn y cynllun, a phob tair blynedd wedi hynny, gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r cynllun a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru. Bydd y gwerthusiadau hyn yn ystyried effeithiolrwydd y cynllun gorfodol ac yn ystyried a yw'r cynllun yn cyflawni gwelliannau i bobl Cymru gan ystyried egwyddorion cyflenwi canlyniadau.

# BIL SGORIO HYLENDID BWYD (CYMRU)

# NODIADAU ESBONIADOL

## Cyflwyniad

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) fel y'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Mai 2012. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil arfaethedig a helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Bil nac wedi eu hardystio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol hyn ar y cyd â'r Bil. Nid ydynt yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil, ac ni fwriedir iddynt fod felly. Felly, pan fo cymal neu ran o gymal yn hunanesboniadol, ni roddir unrhyw esboniad na sylw pellach.

3. Mae'r pwerau i wneud y Bil i'w cael yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 8 o Atodlen 7 iddi. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i wneud darpariaeth ar gyfer darpariaethau'r Bil ac mewn cysylltiad â hwy, yn rhinwedd y pwnc sy'n ymwneud â "*Food and food products. Food safety (including packaging and other materials which come into contact with food). Protection of interests of consumers in relation to food.*"

## Rhestr o dermau a byrfoddau a ddefnyddir yn y Nodiadau Esboniadol

4. Defnyddir y termau a'r byrfoddau canlynol yn y Nodiadau Esboniadol:

**ASB** – yr Asiantaeth Safonau Bwyd
**HCB** – hysbysiad cosb benodedig
**sgôr** – sgôr hylendid bwyd
**y Bil** – Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

## Sylwadau ar gymalau o'r Bil

### Cymal 1 – Trosolwg

5. Mae'r cymal hwn yn cyflwyno darpariaethau allweddol y Bil. Mae 26 o gymalau ac 1 Atodlen i'r Bil. Diffinnir llawer o ymadroddion allweddol yn y Bil yng nghymal 23.

### Cymal 2 – Rhaglen arolygiadau hylendid bwyd

6. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd yng Nghymru (awdurdodau lleol ac awdurdodau porthladd) lunio rhaglenni arolygiadau o

sefydliadau busnes bwyd yn eu hardaloedd er mwyn asesu safonau hylendid y sefydliadau hynny. Wrth lunio rhaglen arolygiadau, rhaid i'r awdurdod bwyd roi sylw i'r materion a bennir gan yr ASB ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r awdurdod bwyd wneud pob arolygiad o fusnesau bwyd yn ei ardal yn unol â'r rhaglen.

7. Nodir ystyr "sefydliad busnes bwyd", "gweithredwr" ac "awdurdod bwyd" at ddibenion y Bil yng nghymal 2(5). Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r diffiniadau o "sefydliadau busnes bwyd" ac "awdurdod bwyd".

**Cymal 3 – Sgoriau hylendid bwyd**

8. Ar sail yr asesiad a wneir yn ystod arolygiad, mae'n ofynnol i'r awdurdod bwyd lunio sgôr, sydd wedi ei chynhyrchu yn erbyn y meini prawf sgorio a gyhoeddir gan yr ASB.

9. Rhaid i'r awdurdod bwyd anfon at weithredwr y sefydliad -

   (a) hysbysiad ysgrifenedig am y sgôr;
   (b) datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y sgôr;
   (c) sticer sgôr hylendid bwyd (mae ffurf y sticer i'w rhagnodi mewn rheoliadau); a
   (d) unrhyw wybodaeth arall a nodir mewn rheoliadau.

   Rhaid anfon yr hysbysiad, y datganiad, y sticer a'r wybodaeth cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl yr arolygiad gan yr awdurdod bwyd.

10. Mae'r sgôr yn peidio â bod yn ddilys os yw'r sefydliad busnes bwyd yn cael hysbysiad am sgôr hylendid bwyd newydd, neu pan fo perchenogaeth ar y sefydliad busnes bwyd wedi ei throsglwyddo neu fod y sefydliad hwnnw wedi cau.

11. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n esemptio categorïau penodol o sefydliad rhag cael eu sgorio.

12. Mae cymal 3(2) yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i alluogi sgoriau i gael eu rhoi ar gyfer asesiadau a wnaed cyn i'r Ddeddf gael ei chychwyn. Er enghraifft, gellid dibynnu ar ganfyddiadau arolygiad blaenorol a wnaed gan yr awdurdod bwyd, fel rhan o gynllun gwirfoddol yr ASB, pan fo'r awdurdod bwyd yn dyroddi sgôr o dan y cynllun statudol ar ôl i'r Ddeddf gael ei chychwyn.

**Cymal 4 – Y meini prawf sgorio**

13. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r meini prawf sgorio (a gyhoeddir gan yr ASB o dan gymal 13(b)) gynnwys system i sgorio safonau hylendid sefydliad busnes bwyd.

**Cymal 5 – Yr hawl i apelio**

14. Mae'r cymal hwn yn darparu'r weithdrefn i weithredwr sefydliad busnes bwyd ei dilyn i apelio yn erbyn sgôr a roddwyd i'r sefydliad, a'r seiliau y caniateir i apêl o'r fath gael ei gwneud arnynt. Mae Gweinidogion Cymru'n rhagweld y byddant yn cynnwys canllawiau ar apelau mewn canllawiau a gyhoeddir ganddynt o dan adran 22.

15. Mae gan y gweithredwr 21 o ddiwrnodau i apelio, o'r dyddiad y derbynnir yr hysbysiad am y sgôr. Rhaid i awdurdod bwyd benderfynu'r apêl (a chaniateir i arolygiad pellach gael ei wneud er mwyn ystyried yr apêl), ac anfon at y gweithredwr hysbysiad am ei benderfyniad. Penderfynir ar yr apêl gan swyddog awdurdodedig nad oedd yn gysylltiedig yn y gwaith o asesu'r sgôr hylendid bwyd sy'n destun yr apêl. Rhaid penderfynu ar apelau cyn pen 21 o ddiwrnodau ar ôl i'r awdurdod bwyd eu derbyn.

16. Os yw'r awdurdod bwyd, ar sail apêl, yn penderfynu newid y sgôr, rhaid anfon sticer sgôr newydd at y gweithredwr ar yr un pryd ag y mae'r awdurdod bwyd yn hysbysu'r gweithredwr am ei benderfyniad.

**Cymal 6 – Hysbysu am sgoriau hylendid bwyd a'u cyhoeddi**

17. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod bwyd hysbysu'r ASB am y sgoriau y mae wedi eu rhoi i sefydliadau busnes bwyd yn ei ardal, ac mae'n nodi terfynau amser erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud hyn. Yna, rhaid i'r ASB gyhoeddi'r sgoriau hynny ar ei gwefan.

**Cymal 7 – Y gofyniad i arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd**

18. Mae'r cymal hwn yn darparu bod gan weithredwr sefydliad busnes bwyd, pan fydd wedi cael hysbysiad am ei sgôr gan yr awdurdod bwyd, 21 o ddiwrnodau hyd nes y bydd rhaid iddo arddangos y sticer yn y sefydliad bwyd. Mae'r cyfnod hwn o 21 o ddiwrnodau yn rhoi cyfle i'r gweithredwr apelio yn erbyn y sgôr. Os bydd y gweithredwr yn apelio, ni fydd y rhwymedigaeth i arddangos y sgôr yn gymwys hyd nes y bydd y gweithredwr yn cael hysbysiad am ganlyniad yr apêl.

19. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhagnodi mewn rheoliadau y man lle y mae'n rhaid arddangos y sticer a'r modd y mae'n rhaid ei arddangos; caiff rheoliadau hefyd ragnodi'r man a'r modd priodol ar gyfer arddangos sticer mewn gwahanol fathau o sefydliad.

20. Bydd y sticer yn peidio â bod yn ddilys pan fydd y sgôr y mae'n ymwneud â hi yn peidio â bod yn ddilys (gweler paragraff 9 uchod). Pan fydd sticer yn peidio â bod yn ddilys, rhaid i'r gweithredwr ei dynnu o'r man lle y mae'n cael ei arddangos a'i ddistrywio, oni chaiff ei gyfarwyddo i beidio â gwneud hynny gan awdurdod bwyd.

**Cymal 10 – Yr hawl i ateb**

21. Yn ystod y cyfnod y bydd y sgôr yn ddilys, bydd gweithredwr sefydliad busnes bwyd yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau (yn ysgrifenedig) ar sgôr y sefydliad i'r awdurdod bwyd. Rhaid anfon unrhyw sylwadau a dderbynnir gan yr awdurdod bwyd o dan y cymal hwn ymlaen at yr ASB, a gaiff gyhoeddi'r sylwadau ar ei gwefan ynghyd â sgôr y sefydliad busnes bwyd.

**Cymal 11 – Ailsgoriadau hylendid bwyd**

22. Caiff gweithredwr sefydliad busnes bwyd ofyn i'r awdurdod bwyd wneud asesiad ailsgorio er mwyn ystyried a ddylid newid sgôr. Os bodlonir yr amodau a nodir yn y cymal hwn, (gan gynnwys y gofyniad bod y gweithredwr wedi talu costau rhesymol yr ailsgoriad), rhaid i'r awdurdod bwyd wneud arolygiad heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl i'r awdurdod bwyd gael y cais.

23. Os bydd yr ailsgoriad yn arwain at newid i'r sgôr, rhaid i'r awdurdod bwyd ddyroddi'r sgôr ddiwygiedig i'r gweithredwr cyn pen 14 o ddiwrnodau. Fel arall, pan nad oes sgôr ddiwygiedig i'w dyroddi, rhaid hysbysu'r gweithredwr cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl i'r arolygiad gael ei gwblhau.

24. Mae'r hawl i apelio a'r hawl i ateb yn gymwys i unrhyw sgôr hylendid bwyd newydd, ac unrhyw sgôr sydd heb ei newid.

**Cymal 13 – Dyletswyddau’r Asiantaeth Safonau Bwyd**

25. Mae'r cymal hwn yn nodi dyletswyddau’r ASB mewn perthynas â'r cynllun sgorio hylendid bwyd.

**Cymal 14 – Pwerau a chyfrifoldebau eraill awdurdodau bwyd**

26. Mae'r cymal hwn yn darparu bod yn rhaid i awdurdod bwyd, pan fydd yn cofrestru neu'n cael cais am gymeradwyaeth gan sefydliad busnes bwyd newydd, anfon gwybodaeth (sydd i'w rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau) at y gweithredwr cyn pen 14 o ddiwrnodau. (Mae deddfwriaeth hylendid bwyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o sefydliadau busnes bwyd gofrestru gyda'u hawdurdod bwyd, ond rhaid i rai busnesau gael cymeradwyaeth gan eu hawdurdod bwyd.)

27. Mae'r cymal hwn hefyd yn darparu bod yn rhaid i'r awdurdod bwyd roi sylw i argymhellion a wneir gan yr ASB a chanllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, gwneud trefniadau i orfodi'r rhwymedigaethau o dan y Bil ar sefydliadau busnes bwyd yn ei ardal, ac adolygu gweithrediad y cynllun yn ei ardal er mwyn sicrhau bod y meini prawf sgorio yn cael eu hasesu'n deg ac yn gyson a chynorthwyo'r ASB mewn unrhyw werthusiad o'r cynllun a wneir gan yr ASB.

**Cymal 15 – Cyfrifoldebau eraill gweithredwyr sefydliadau busnes bwyd**

28. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr sefydliad busnes bwyd ddarparu gwybodaeth a phob cymorth rhesymol i'r awdurdod bwyd i'w alluogi i lunio sgôr hylendid bwyd ar gyfer y sefydliad ac arfer ei swyddogaethau eraill o dan y ddeddfwriaeth.

**Cymal 16 – Pŵer mynediad**

29. Mae'r cymal hwn yn darparu i swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd, ar ôl iddo ddangos awdurdod ysgrifenedig, bŵer i fynd i mewn i sefydliad busnes bwyd at ddibenion penodedig sy'n ymwneud â'r Bil.

**Cymal 18 – Troseddau gan gyrff corfforaethol**

30. Mae'r cymal hwn yn darparu y bydd cyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd i gorff corfforaethol (megis cwmni, neu unrhyw gorff arall a gorfforir drwy statud) sy'n cyflawni trosedd o dan y Bil hwn hefyd yn euog o drosedd mewn amgylchiadau pan geir eu bod yn bersonol feius.

**Cymal 19 – Cosbau**

31. Mae'r cymal hwn yn darparu bod troseddau o dan y Bil hwn yn rhai y gellir eu rhoi ar brawf yn y Llys Ynadon a'u cosbi drwy ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd).

**Cymal 20 – Cosbau penodedig**

32. Mae'r cymal hwn yn galluogi swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd i ddyroddi hysbysiad cosb benodedig (HCB) i berson y mae ganddo reswm i gredu ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Bil. Caiff swyddog awdurdodedig gynnig cyfle i'r person hwnnw fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig. Os na thelir y gosb benodedig, bydd yr awdurdod bwyd yn cadw'r pŵer i erlyn.

**Cymal 22 – Canllawiau**

33. Mae'r cymal hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i awdurdodau bwyd mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan y Bil. Rhaid i'r awdurdod bwyd roi sylw i'r canllawiau hyn.

**Cymal 24 – Rheoliadau**

34. Mae'r cymal hwn yn darparu trefniadau cyffredinol (yn is-gymalau (1), (2) a (3)) ar gyfer gwneud gorchmynion a rheoliadau o dan y Bil hwn. Yna, mae is-gymalau (4) a (5) yn sefydlu gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer gwneud y gorchmynion a'r rheoliadau hynny.

35. Mae Pennod 5 yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol yn darparu tabl sy'n crynhoi'r rheoliadau a'r gorchmynion y caniateir eu gwneud o dan y Bil hwn.

**Atodlen 1 – Hysbysiadau cosb benodedig**

36. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig a lefel y cosbau penodedig sy'n daladwy mewn cysylltiad â throsedd o dan y Bil. Mae paragraffau 1 a 2 yn darparu y dylai'r HCB fod yn £200 a'i fod i'w dalu mewn 28 o ddiwrnodau, gyda chosb ostyngol o £150 os telir yr HCB o fewn 14 o ddiwrnodau. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi swm gwahanol am y gosb neu'r gosb ostyngol.

37. Mae Rhan 2 o Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â ffurf a chynnwys hysbysiadau cosb benodedig.